

ECO'R WYDDFA

Rhif 176

CHWEFROR 1992

Pris 25c.

EURO/DPC A'R GYMUNED

Ffaith hysbys bellach yw fod EURO/DPC yn dod i Lyn Rhonwy yn ystod haf 1992 — ac yng ngeiriau'r cwmni, 'yn dod yno i aros'. Yma y bydd pencadlys Ewropeaidd y cwmni'n datblygu.

Mae'r adeilad presennol, sydd wedi ei godi ymhlith y coed a'r llechi, yn mynd i roi gwaith i rhwng 200 a 300 o bobl ymhen rhyw ddwy flynedd. Bydd tîm bychan o 20-25 o staff, sydd wedi cynorthwyo i sefydlu ERUO/DPC a'i ddatblygu i'r hyn ydyw heddiw, yn symud o Witney, Rhydychen, gyda'u teuluoedd, i droi'r adeilad hwn yn ffatri waith ffyniannus — 'ond 'wna hynny fyth ddigwydd heb gefnogaeth y gymuned leol,' — geiriau'r cwmni.

Gall hyn olygu cefnogaeth gorfforol uniongyrchol fel rhan o'r gweithlu.

Gall olygu cefnogaeth ar lafar ar ffurf croeso i'r teuluoedd o Witney fel y bo modd iddynt ymdoddi i fywyd y gymuned yn gyflym a rhwydd.

Gallai olygu cefnogaeth anuniongyrchol drwy ddarparu'r gwasanaethau atodol cysylltiol y bydd eu hangen amynt ar gyfer y gwaith.

Gall hyn oll gymryd amser — bydd yr ysgolion a'r colegau'n gofalu am lwyddiant ein plant a'n pobl ifanc dros flynyddoedd lawer i ddod.

Mae dyfodiad EURO/DPC yn drobwynt pwysig a chyffrous yn hanes yr ardal hon. 'Ond erfyniwn arnoch,' meddai datganiad ar ran y cwmni, 'i beidio â disgwyl gwyrthiau dros nos nac i ni allu cyflawni'r cyfan ar ein pennau ein hunain.' Bydd presenoldeb y cwmni yn denu eraill i'r ardal fel y caiff effaith caseg eira ar greu gwaith a fydd yn gofyn am lu o wahanol fathau o sgiliau. Bydd llwyddiant EURO/DPC yma yn ei gartref newydd yn arwain, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at ddiogelu dyfodol a ffyniant yr ardal. Bydd hynny, yn ei dro, yn golygu na fydd yn rhaid i bobl ifanc adael yr ardal i chwilio am sicrwydd dyfodol a gwaith — a bydd hynny, wrth gwrs, yn diogelu gwreiddiau a

AGOR CRONFA I GEFNOGI SGIWR



DAU'GIW' O FRID



Digon llwm fu tymor 1991-92 hyd yn hyn i gyn-bencampwr snwcer y byd, Steve Davies. Ag eithrio 'i lwyddiant yng nghystadleuaeth Mercantile yn erbyn Stephen Hendry yn ddiweddar, mae'r arwr yn cydnabod mai yr unig uchafbwynt arall o'r tymor iddo oedd cael y fraint o gyfarfod Aneuryn Jones a Gwynedd Owen!

Cafodd y gwron noson fythgofiadwy draw tua Lerpwl yng nghwmni Aneuryn, perchennog hawddgar gwesty Dolbadarn a Gwynedd Owen, Caernarfon, ond sydd a'i wreiddiau'n ddwfn yn naear Llanbêr.

Yn ôl y sôn, gwyddai Steve eisoes am orchestion Aneuryn fel chwaraewr pŵl, yn enwedig am ei ddawn arbennig fel chwaraewr 'safeties', a gwyddai hefyd am hanes llwyddiannus Gwynedd fel

chwaraewr snwcer. Mae Steve yn cofio Gwynedd ddod yn bencampwr cyngwrair Bangor a'r Cylch yn nhymor 1973-74 ac iddo dderbyn y wobwr am berfformiwr y flwyddyn ar ddau achlysur.

Gall yr Eco gyhoedd erbyn hyn, ar waetha'r holl siarad a chyffro, nad oes gwir yn y ffaith fod y ddau wron o Lanbêr, ar ôl llenwi Steve hefo Guinness, wedi ei gael i arwyddo cytundeb blwyddyn i chwarae i 'Llanberis Blues'.

thraddodiadau'r gymdeithas leol.

Mae gan y cwmni awydd a diddordeb diffuant i fod yn rhan annatod o'r gymuned ac i dderbyn ei gyfran deg o gyfrifoldeb dros ofalu am y gymuned a chydweithio â'r trigolion lleol i feithrin delfrydau ac agweddau ar harddwch bro. Mae'r rheolwyr yn falch o'r thraddodiadau a ddaeth eisoes yn rhan o'r cwmni — ansawdd da yw eu nod bob amser. Maent wedi cael enw o fod yn weithwyr caled ond eto'n gyfeillgar a pharod i wrando — y tu mewn i'r cwmni a'r tu allan — ar ofynion y

gymuned leol, drwy ffurfio cysylltiadau gydag ysgolion, mudiadau elusennol, busnesau lleol eraill, etc., pa le bynnag y bo modd gwneud hynny. Maent bob amser yn barod i ystyried awgrymiadau a gyflwynir mewn dull adeiladol, agored.

Mae EURO/DPC yn awyddus i gefnogi syniadau lle gallant hyrwyddo buddiannau'r ardal drwy ddefnydd pwrpasol o'u doniau, eu dylanwad, eu cysylltiadau a'u cyllid. Maent yn ymwybodol iawn o werth gwarchod yr amgylchedd. Meddai'r datganiad: 'Ni fyynnwn osod baich ar y gymuned drwy wthio ein syniadau ni ein hunain arnoch, — chi sy'n adnabod ac yn caru'r ardal — sut y gallwn ni lunio'r dyfodol, gyda'n gilydd?'

Mae Michael Wroe o'r Waunfawr yn sgiwr arbennig o ddawnus. Mae'n un o ddeuddeg o ddynion drwy wledydd Prydain sy'n ffurfio'r Garfan Ddatblygu sy'n ymarfer ar eira Awstria ar hyn o bryd. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymarfer a chystadlu ar y lefel yma yn uchel iawn ac yn gallu bod yn drwm ar yr unigolyn a'i deulu oni bai bod cymorth ariannol ar gael gan gyrff cyhoeddus sy'n barod i fuddsoddi mewn talent leol. Mae'n amlwg nad oedd Cyngor Cymuned Waunfawr am wneud hynny pan ddaeth cais Michael o'u blaenau. O holl aelodau'r garfan sgîo, Michael ac un bachgen arall o Wynedd, sef Roger Hughes o Fetws y Coed, yw'r unig rai sydd dim yn derbyn nawdd gan eu cynghorau lleol. O ganlyniad i hyn, mae cronfa leol i gefnogi gyrfa Michael wedi ei hagar gan y Cyngorydd Sir, Eurig Wyn o'r Waunfawr. (Rhagor ar y dudalen gefn.)

TREFN NEWYDD

O'r diwedd mae gennym drefnydd plygu'r Eco! Mae croeso mawr i Sioned Roberts, Pant Afon, Waunfawr sydd eisoes wedi dechrau ar ei gwaith. Ei chyd-bentrefwyr hi ei hun yn y Waunfawr sy'n gyfrifol am y rhifyn hwn a thro trigolion Llanrug yw plygu rhifyn mis Mawrth. Yn Eco Mawrth cyhoeddir rhestr o drefn y plygu am y flwyddyn.

Fel y gwyddoch, mae yna newidiadau eraill ar droed. Yn y dyfodol agos bydd golygyddiaeth newydd, a chyhoeddir enwau'r swyddogion ar ôl penderfynu'n derfynol ar ffurf yr olygyddiaeth honno.

ECO'R WYDDFA

RHIF 176
CHWEFROR 1992

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115).

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stâd Tŷ
Hen, Waunfawr, (Waunfawr 599).

TREFNYDD GWERTHANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, CHWEFROR 27
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN
CHWEFROR 17
os gwelwch yn dda

Llythyr

Rali Genedlaethol y Fforwm Iaith

Annwyl Olygydd,

Byddar fu'r Swyddfa Gymreig i bob
galwad am gynnwys Deddf Iaith
newydd yn araith y Frenhines ar
ddechrau'r sesiwn olaf hwn o'r
llywodraeth bresennol. Mae'n dod yn
fwy fwy amlwg i nifer cynyddol o
Gymry nad yw'n fwriad gan y
llywodraeth hon i gyflwyno, o'u
gwirfodd, fesur Deddf Iaith newydd
i'r senedd. Yn wir, mae Mr David
Hunt a Syr Wyn Roberts yn gwrthod
yn lân a datgan unrhyw gefnogaeth
o blaid Deddf Iaith newydd.

Yr ydym ni'r Gymry yr un mor
benderfynol bod rhaid cael Deddf
Iaith i sicrhau tegwch i'r Gymraeg. Er
mwyn gwneud hyn yn gwbl eglur i
bawb yn y senedd mae'r Fforwm
Iaith Genedlaethol yn trefnu Rali
Fawr yn San Steffan ar ddydd
Mercher, Chwefror 19. Disgwylir
cannoedd i deithio i Lundain —
cynrychiolwyr o holl fudiadau y
Fforwm Iaith — i greu lobi dorfal gref.

Nid ar chwarae bach y gorfodir y
llywodraeth styfnig hon i newid eu
meddwl; cofiwn yr aberthu cyn
sicrhau sianel deledu Gymraeg. Ond
y mae modd dwyn y maen i'r wal
gyda digon o gefnogaeth. Felly
apeliwn yn daer ar bob Cymro sy'n
pryderu am yr iaith i aberthu UN
diwrnod er mwyn y Gymraeg, a dod
i Lundain i'r lobi dorfal hwn. Mae
trefniadau teithio o bob rhan o
Gymru eisoes ar droed. Holwch yn
lleol neu cysylltwch â swyddfa'r
Fforwm Iaith, Caernarfon (0286)
78154. Bydd Rali yn yr Ystafell
Bwyllgor Fawr (Grand Committee
Room) yn y Tŷ Cyffredin rhwng 3.30
a 5.30 y prynhawn pryd y bydd
arweinwyr cenedlaethol yn annerch.
Dowch i Lundain i greu hanes!

ARIAL M. THOMAS

Cadeirydd Pwyllgor Hysbysrwydd
Y Fforwm Iaith Genedlaethol.

Calennig i Gymru

Annwyl Gyd-Gymry,

Tybed a fu rhywun wrth eich drws ar
lonawr y cyntaf i ofyn am galennig
eleni? Dyna a wnaf i, sef gofyn am
Galenig i Gymru.

Go brin y buasai afal, oren neu
fferins o fawr werth i Gymru. Bûm yn
pendroni pa galennig fedrem ni ei roi
i'n gwlad eleni. Dyma rai o'r syniadau
a ddaeth i'mhen. Hyderaf y bydd
llawer ohonynt yn gymeradwy gan
eich darllenwyr:

1. Defnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle,
e.e. sgwennu sieciau, llenwi
ffurflenni, cyhoeddi poster i a
thocynnau, a.y.y.b.
2. Prynu mwy o lyfrau Gymraeg dros
y flwyddyn. Pe b'ai pob teulu yn
archebu un papur neu gylchgrawn
Cymraeg ychwanegol byddai
hynny'n hwb ardderchog i'n
cyhoeddwy.
3. Rhoi cefnogaeth ymarferol i'ch
Papur Bro — gweithio'n wirfoddol i
hybu gwerthiant neu hel
hysbysebion, codi arian, sgwennu
erthygl, a.y.y.b.
4. Annog a chynorthwyo'r di-
Gymraeg i groesi'r bont atom. Beth
am ystyried bod yn athro ar
ddosbarth o ddysgwyr? Cysylltwch

â'ch Cyngor Sir neu Ganolfan Taith
i gynnig eich enw ac i ofyn am
arweiniad.

5. Beth am gael criw ynghyd i
sefydlu Canolfan Iaith yn eich sir?
Mae Nant Gwrtheyrn a'r Ganolfan yn
Ninbych, Clwyd, wedi profi'r galw.
Pryd welwn ni ganolfannau cyffelyb
yn siroedd y de?

6. Annog y di-Gymraeg i hawlio
addysg Gymraeg i'w plant. Peth
cyffredin iawn yw cael sgwrs â rhieni
sy'n gofidio bellach na wyddant am
ysgolion Cymraeg pan oedd eu plant
yn ifanc. Gan nad yw'r rhan fwyaf o'r
siroedd yn rhoi gwybodaeth nac
arweiniad mae'n rhaid i ni wneud
hynny ein hunain.

7. Ymuno â sefydliadau Cymraeg ar
draul y rhai Prydeinig, e.e., Merched
y Wawr nid y W.I.; Undeb
Amaethwyr Cymru yn lle'r NFU, neu
UCAC yn hytrach nag un o'r undebau
Seisnig.

8. Cefnogi Plaid Cymru bob amser
am mai hi yw'r UNIG blaid sydd yn
rhoi blaenoriaeth i Gymru.

9. Cefnogi Urdd Gobaith Cymru —
helpu'r adran/aelwyd leol, sefydlu
adran neu aelwyd, cyfrannu'n
ariannol.

10. Cefnogi'r eisteddfodau lleol.
Dyna un o negeseuon pwysicaf Aled
Lloyd Davies yn Eisteddfod Bro
Delyn.

11. Sefydlu busnes, yn arbennig yn
y Fro Gymraeg. Mae argoelion fod
yna ddeffroad yn y maes hwn ond
rydym flynyddoedd ar ei hôl hi. Ewch
ati — mentrwrch.

12. Penderfynu cael un plentyn
ychwanegol (o leiaf!) a pheidio â bod
yn gonfensiynol fodlon ar ddau
blentyn yn unig. Rhaid magu mwy o
Gymry.

Mae'n siŵr y medrai llawer
ohonoch ychwanegu mwy o
syniadau teilwng. Hyderaf fod
rhywbeth uchod wedi taro tant ym
mhob un ohonoch.

MOI PARRI

Golygfan, Allt-y-golch,
Carmel, Treffynnon, Clwyd.

ADUNIAD

Annwyl Ddarllenwyr,

GAn y bydd ysgol newydd ym
Mhenisarwaun cyn diwedd y
flwyddyn, tybed a fyddai gan gyn-
ddisgyblion yr hen ysgol, sef ysgol
Tanycoed, ddiddordeb mewn cael
aduniad mewn un o westai y fro pan
geuir yr hen ysgol am y tro olaf. Fe
fyddai yn gyfle i ni gwrdd â rhai nad
ydym wedi eu gweld ers
blynyddoedd ac i ail adrodd hen
hanesion. Byddai y rhai hyn o
ddarllenwyr yr Eco yn cofio mai i
ysgol Tanycoed yr oeddem ni blant
Brynrefail, bryd hynny, yn mynd
erstalwm. Pe byddai digon o
ddiddordeb yn y syniad, 'rwyf yn
berffaith fodlon i alw pwyllgor o'r
ardal i wneud y trefniadau ar gyfer
aduniad o'r fath. Ond fe fyddai angen
i hanner cant o gyn-ddisgyblion Ysgol
Tanycoed ddangos diddordeb cyn
dechrau'r trefniadau.

Yn gywir,

ROL WILLIAMS

5 Pant y Waun,

Waunfawr (Waunfawr 457).

RALI TYNGED YR IAITH

Adduned 1992

Blwyddyn Deddf Iaith Newydd

Annwyl Olygydd,

Bydd yna gyfle i wneud 1992 yn
flwyddyn Deddf Iaith Newydd, ac fe

fydd cyfle gennych chi i ofalu fod hyn
yn digwydd. Gwelwn yng Nghymru
heddiw unfrydiaeth barn fod angen
Deddf o'r fath, ond mae'r
llywodraeth yn dal ymlaen i
anwybyddu'n galwad. Y Toriaid yw'r
unig blaid sydd yn gwrthod rhoi
Deddf Iaith Newydd i Gymru. Gydag
etholiad cyffredinol ar y gorwel mae
angen unwaith eto dangos maint y
gefnogaeth sydd yna i'r egwyddor o
Ddeddf iaith Newydd. Cynhelir Rali
Genedlaethol yn Aberystwyth ar y
15fed o Chwefror 1992, sef deng
mlynedd ar hugain union i'r mis y
darlledwyd darlith radio enwog
Saunders Lewis. Os am fod gyda'r
lliaws o bobl eraill cadwch y dyddiad
yn glir, a dewch i Aberystwyth
gyda'ch placardiau'n galw am
Ddeddf Iaith Newydd. Dyma ffordd
arall eto o ddangos ein bod wedi
blino aros. Pan fo gwledydd eraill yn
dod yn rhydd ac ieithoedd yn cael eu
parchu, mae'n drist meddwl nad yw
pethau felly yng Nghymru. Mae'r
'Welsh Not' yn dal yn fyw yn niwedd
yr ugeinfed ganrif. Dewch i newid
hynny.

Yn gywir,

CEN LLWYD,

MEINIR WILLIAMS

Ar ran Grŵp Statws

Cymdeithas yr Iaith,

Rhodfa'r Môr, Aberystwyth.

RHODDION

£10: Mr Hugh Williams, 7 Stryd
Tomos, Llanberis — er cof
am Nettie.

£5: Mr a Mrs William Roberts,
Hyfrydle, Ffordd Capel
Coch, Llanberis; Mrs Dilys
Jones, Cytir, Brynrefail; Mrs
Eirianwen Evans, Ffrwd
Madog, Brynrefail; Y Parch
Tegid a Nant Roberts,
Arwel, Penisarwaun; Mr J.
Hughes, Tan-y-clogwyn,
Llanberis; Arwel a Lisa,
Elwyn a Mary Parry, Pen-y-
bont ar Ogwr; Dorothy May,
Caernarfon.

£3: Helen M. Pritchard, Tŷ Isaf,
Nant Peris.

£2: Mrs Charles, Saynor,
Llanberis; John Llewelyn
Williams, Pen-y-golwg,
Deiniolen.

£1: Teulu Dylan Wyn Jones,
Rhydfadog, Deiniolen; Mrs
J. Evans, 31 Rhydfadog,
Deiniolen; 'Pysgotwr' di-
enw o Fethel.

Beth am ddysgu
dreifio gydag

YSGOL YRRU
BETHEL

Cysylltwch â

Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG
671009

GWYL CODI'R HWYL 5

Bydd Hwyl a Fflag yn cyflwyno Gwyl Codi'r Hwyl 5 yn Theatr Gwynedd a chanolfannau eraill yn y cylch rhwng Chwefror 27 a Mawrth 7.

Cyflwynir pedair drama newydd gan Hwyl a Fflag, ar ffurf perfformiadau neu ddarlenniadau o waith Emlyn Gomer; Gruffudd Jones; Gareth Miles a Dyfan Roberts yn ogystal â pherfformiad o ddrama mewn addasiad. Bydd y dramâu yng ngofal Anwen Carlisle, Gwen Ellis, Wyn Bowen Harries, Idris Morris Jones, Phil Reid, Dewi Rhys, Iwan

Tudor a Wyn Williams.

Daw tri cwmni gwadd i'r wyl, Arad Goch, Frân Wen a Cusan Tân, a hynny er mwyn cyflwyno sioe i blant cynradd, gweithdy i fyfyrwyr uwchradd a chyflwyniad mewn clwb el eu gilydd.

Bydd gweithdy ar gyfieithu dramâu, trafodaethau ar 'theatr a'r ddrama' a'r 'awdur yn y gymuned' a fforwm agored ar ysgrifennu newydd yng ngofal arbenigwyr o Gymru a'r tu allan. Ar ddydd Gwyl Ddewi dengys ffilm newy Meic Povey — 'Yr Ynys'.

COLOFN NAWDD CYMDEITHASOL

Oherwydd fod cyfnod o dywydd oer iawn wedi bod yn ddiweddar, fe all fod rhai ohonoch yn deilwng i Daliad Tywydd Oer, sy'n £6 am bob wythnos.

Rhaid i chwi, i ddechrau, fod yn derbyn Cymhorthdal Incwm (*Income Support*) sy'n cynnwys:

*ychwanegiad dros blentyn o dan 5 oed; neu

*un o'r premiymau sy'n berthnasol i bensiynwyr oherwydd eich bod chwi neu'ch partner yn 60 oed neu hyn (*pensioner premiums*); neu

*un o'r premiymau sy'n cael ei talu oherwydd anabledd (*disability premiums*).

Rhaid hefyd i'ch côd post fod yn un o'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r gorsafoddd tywydd hynny sydd wedi bodloni'r amodau.

Fe ddylai'r rhai sy'n gymwys dderbyn siec giro drwy'r post, felly nid oes angen gwneud cais fel rheol. Os, fodd bynnag, yr ydych heb gael y taliad, ac yn credu eich bod yn deilwng, neu os ydych angen ychwaneg o wybodaeth, ffoniwch Linell Ddi-dâl Nawdd Cymdeithasol ar 0800 289011.

COFIWCH — Gwnewch ddefnydd o'r Llinell Ddi-dâl, mae wedi ei sylfaenu i'r Cymry gael cyngor am ddim ar unrhyw fater Nawdd Cymdeithasol.

Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992 CYSTADLEUAETH NEWYDD

Ydych chi'n adnabod pobl sy wedi llwyddo i newid iaith eu cartref? Neu ydych chi wedi gwneud hyn eich hunain? Diben y gystadleuaeth newydd hon yw dangos i bawb sy'n byw yng Nghymru heddiw ei bod yn bosibl nid yn unig dysgu Cymraeg ond ei bod hefyd yn bosibl newid iaith y cartref.

Mae angen i bob cartref gael enwebydd fydd yn tystio i'r ffaith mai Cymraeg yw iaith y cartref hwnnw. Mae angen llenwi ffurflen yn gofyn am enw'r teulu a'r enwebydd. Byddwch chi wedyn yn derbyn holiadur syml.

Bydd y beirniadu ar ffurf ymweliad gan ddau feirniad â'r cartref a bydd gofyn i'r enwebydd fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad. Bydd popeth yn anffurfiol iawn.

Ar gyfer y gystadleuaeth rhennir Cymru yn bedair ardal a bydd y cartrefi sy'n cystadlu o fewn yr un ardal yn cael eu gwahodd i noson gymdeithasol ar gyfer dyfarniad y beirniad.

Bydd y pedwar cartref fydd yn cyrraedd y rownd derfynol yn cymryd rhan mewn gemau. Hwyl a sbri fydd y gemau hyn ond bydd cyfle hefyd i un person o bob cartref ddweud gair o brofiad. Fydd hyn ddim yn rhan o'r gystadleuaeth. Bydd y rownd derfynol ym Mhabell y Dysgwyr ar faes yr Eisteddfod ar ddydd Mercher, 5 Awst, 1992, am hanner dydd. Gobeithir y bydd hi'n bosibl cyflwyno'r wob'r i'r teulu buddugol yn ystod Noson y Dysgwr y Flwyddyn ar nos Fercher, 5 Awst, yng Ngwesty'r Marin, Aberystwyth.

Ffurflenni a manylion pellach gan Siôn Meredith, Cyfarwyddwr CYD, Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Dyfed SY23 2AX. Ffôn: (0970) 622143. Dyddiad cau: 15 Chwefror 1992.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

PIOD YN HITIO'R BOTEL

Tybed a ydych yn cael eich poeni gan adar digywilydd yn agor eich poteli llefrith wrth y drws yn y bore? Bu hyn yn arferiad ers tro gan y titw tomos las ar ôl iddo ddysgu'i hun, a'i ddisgynyddion, yn gynharach yn y ganrif hon, sut i gael mynediad trwy'r caead arian deniadol.

Erbyn hyn, nid yw'r titw ar ei ben ei hun yn hyn o beth — mae'r biden wrthi hefyd yn ôl pob sôn. Cynhaliwyd arolwg yn ddiweddar a chafwyd bod piod wedi dechrau agor poteli llefrith ar draws canolbarth Lloegr rhwng Llundain a Glannau Mersi. Cafwyd dyrnaid o gofnodion hefyd o dde Cymru, dau o ddwyrain Clwyd, ac un o Fôn. Yn wir mi welodd un o'r sylwebyddion biden yn sipian hufen potel lefrith yn syth ar ôl bod yn ymdrybaeddu mewn llwyth o faw ci! Efallai y dylen ni geisio darganfod mwy am yr arferiad hwn am resymau iechyd cyhoeddus, heb sôn am ddim byd arall.

Yn dilyn hysbys ar Radio Cymru daeth gwybodaeth ddiddorol arall i'r fei, eto o dde Cymru, am biden yn Nhreorci yn mynd am ei brecwast ben bore o ddrws i ddrws. Soniwyd am biden arall yn dilyn y dyn llaeth ar ei gylchdaith plygeiniol yn rheolaidd pob bore. Mae'n amlwg nad yw piod pob ardal yn gwneud hyn, a byddai'n ddiddorol iawn mesur hyd a lled yr arfer, a chofnodi unrhyw gynnydd yng Nghymru dros y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod.

Beth felly am lenwi cymaint o'r ffurflen isod ag sy'n bosig os gwelsoch chi aderyn (titw hyd yn oed) yn agor potel lefrith.

AROLWG PIOD MEWN POTELE

Enw Cyfeiriad
Pa fath o aderyn welwyd Sawl un
Dyddiad a welwyd Faint o'r gloch
Ymhle (mor fanwl ag sy'n bosib)
Pa fath o lefrith (hufen llawn/semi-sgim/sgim)
Lliw y Caead Tywydd
Unrhyw sylwadau eraill

Os gwelwch yn dda dychwelwch y ffurflen i:

Duncan Brown, Cyngor Cefn Gwlad Cymru,

Hafod Elfyn, Ffordd Penrhos, Bangor neu ffoniwch Waunfawr 547

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

WAUNFAWR

Mrs. Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Y Gymdeithas Lenyddol: Hyd yn hyn cafwyd cynulleidfaoedd grymus iawn ymhob cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol — dros hanner cant ymhob cyfarfod, sydd yn sicr yn rhoi boddhad i'r trefnwyr. Yn ystod mis Ionawr cafwyd sgwrs ddifys tros ben gan Mr Bobbie Haines ar dref Caernarfon, gyda Mrs Kate M. Jones yn llywyddu cyfarfod o'r fath am y tro cyntaf erioed, gan wneud ei gwaith yn rhagorol. Yna yn dilyn, cafwyd noson, gyda Mrs Margaret Owen yn y gadair, pan fu'r aelodau yn datgan pa ddarn o lenyddiaeth neu gerddoriaeth sydd wedi rhoi ac yn rhoi pleser iddynt. Nos Lun, 10 Chwefror, disgwyliwn y Parchg John Gillibrand, M.A., Ficer Ffestiniog erbyn hyn, ond Curad yma yn y Waunfawr cyn hynny, yn ôl atom i roi sgwrs ar ei yrfa a'i gefndir yn Lloegr cyn iddo ddysgu'r Gymraeg mor ardderchog. Yna ar Chwefror 24 daw Capten Gwyn Pari Huws, Caernarfon, i roi sgwrs ar y testun 'Llywybrau'r Môr'. Llywyddir y ddau gyfarfod yma gan Mr Tom A. Thomas a Mr T. Arfon Williams. I gloi'r tymor ym mis Mawrth fe drefnir noson gyda phaned ac adloniant ysgafn.

Genedigaeth: Am yr eildro o fewn y mis daeth Mrs J. Parry, Clydfan, yn hen nain. Ganwyd mab bychan, Thomas James Gruffydd, i'w hŵyr Arwel a'i wraig Lisa ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dymuna Arwel a Lisa, ac Elwyn a Mary, ddiolch i drigolion y Waun am eu caredigrwydd tuag atynt ar enedigaeth eu mhab a'u hŵyr bach. Llongyfarchiadau i chi Mrs Parry, ac i fodryb y ddau fach Miss Nancy Griffith, Tan 'Rallt.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Raymond Parry, Ffridd Felen, ar fod yn daid a nain. Ganwyd mab bychan, Thomas Mathew, i'w mhab Michael a'i wraig Liz, yng Nghaer.

Llywyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Lowri Glyn, Plas Bodhyfryd ar lwyddo gydag anrhydedd yn arholiad gradd un chwarae'r piano; i Helen Williams, Garreg Fawr, am lwyddo yng ngradd 1 gyda theilyngdod; i Edryd Williams, Bryn Meurig ar lwyddo yng ngradd 2; i Llion, ei frawd, ar lwyddo yng ngradd 2; i Heddu Gwynedd, Nant, ar lwyddo yng ngradd 4; ac i Catrin Keller, Heimat, ar lwyddo yng ngradd 5 gyda theilyngdod. Bu Zoe Gordon, Garnedd Wen yn llywyddiannus gydag anrhydedd yng ngradd 6 arholiad

Oboe.

Clwb 300: Dyma restr o enillwyr am fis Rhagfyr — 1, £40: Julia Roberts, 10 Ael-y-bryn; 2, £25: Ian Johnstone, Tŷ Gwyn; 3, £10: Irene Roberts, Pant Teg. Hefyd gwobrau ychwanegol o £10 yr un i Mrs Lewis, Tŷ'r Ysgoldy a Miss Marian Jones, 20 Tŷ Hen.

Adref o'r ysbyty: Croesawn Mrs H. Parry, Bro Waun; Mrs R. Jones, Dychwelfa; Mrs Helen Jones, Dôl Erddi; Mrs Maud Jones, Ael-y-bryn; Mr Ovary, Pan Waun; Mr Morus Elfryn, Coed Gwydryn; adref o'r ysbyty ym Mangor a Mrs Ann Griffith, Tŷ'n Ronnen, a fu am gyfnod yn yr ysbyty yn Lerpwl. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Peter Evans, Preswylfa; Mrs Grace Roberts, Bro Hedd, Bryn Golau; a Mrs Jones, Pant Cae Haidd, sydd yn yr ysbyty ym Mangor ar hyn o bryd.

Cydymdeimlwn

— â Mrs Barbara Griffiths, Bro Waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer; — â Mr Wilfred Jones, Treflys, yn ei brofedigaeth o golli ei fam;

— â Mr Morus Elfryn, Coed Gwydryn, yn ei brofedigaeth o golli ei fam;

— â Mair, Len, Catherine ac Aled Taylor, Baladeulyn, yn eu profedigaeth o golli eu tad. 'Roedd Mr George Taylor yn un o drigolion hynaf y Waun;

— â theulu y ddiweddar Mrs S. Ward, Dolfair.

Mewn ychydig amser ar ôl symud o'r Waun bu farw Mr Meeke, a fu'n byw yn Stad Tref Eilian, a Mrs Marjorie Billton a oedd yn byw ym Mryn Golau. Anfonwn ein cydymdeimlad at eu teuluoedd yn eu profedigaeth.

Dathlu Penblwydd: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhys Siôn, Pant Têg, ar gyrraedd ei ddeunaw oed.

Chwarae Pêl-droed: Llongyfarchiadau i Kevin Davies, Hafan, ar gael ei ddewis i dîm pêl-droed dan 12 oed Arfon a fu'n chwarae yn erbyn tîm dan 12 oed Manchester City.

Ar y teledu: Dros wyliau'r Nadolig gwelsom Siân Jones, Môr Awel, yn perfformio yn Llundain yn y rhaglen 'O Lannau'r Fenai i Lannau'r Tafwys'. Hefyd gwelwyd Lowri Huws, Argoed, a Llion Cynlas, Glanfa, yn y ddrama 'Traed Mewn Cyffion'. Llongyfarchiadau ichi ar eich

DAWNSIO DISGO'N YR YSGOL SUL



Dydd Sadwrn, Ionawr 18, yn y Ganolfan Hamdden fe gynhaliwyd cystadleuthau dawnsio disgo wedi ei drefnu gan Gynor Ysgolion Sul. Fe aeth chwech o enethod o'r pentref i gystadlu, ac fe ddaeth Helen Williams a Sioned Jones yn drydydd yn y gystadleuaeth i barau. Hefyd daeth Elin Evans, Lowri Glyn, Fiona Davies ac Emma Davies yn fuddugol yn y gystadleuaeth i bedwarawdau.

Hyfforddwyd y genethod gan Ceryl Davies, a wnaeth waith da yn eu dysgu mewn cyn lleied o amser. Diolch yn fawr Ceryl.

perfformiadau ac i bawb a oedd ynglŷn â'r rhaglen.

Yr Urdd: Dechreuodd y tymor newydd ar Ionawr 15, gyda'r plant yn mwynhau ffilm yn dangos yr hwyl a geir yng ngwersylloedd Glanllyn a Llangrannog. Bydd cyfle i ymweld â Glanllyn dros benwythnos Ebrill 3-5 — ceir rhagor o fanylion gan Anti Nan. Bu Mr Leslie Jones yn ymweld â'r plant Ionawr 22, i sôn am rai o hanesion Waunfawr, a sut bentref ydoedd flynyddoedd yn ôl. Daeth Mrs Ann Elfryn atom, Ionawr 29, i ddangos sut i baratoi ar gyfer cystadlaethau gwaith llaw Eisteddfod yr Urdd.

Cynhelir yr Eisteddfod Cylch (dan 12 oed) yn Ysgol Brynrefail, ddydd Sadwrn, Mawrth 7. Cynhelir y cystadlaethau dawnsio disgo, dawnsio gwerin a chân actol yn Ysgol Syr Huw Owen ar fore Sadwrn, Chwefror 29ain. Os am gystadlu cysylltwch ag Anti Nan. **Rhaid dychwelyd yr enwau a'r ffurflenni cais erbyn Chwefror 15.**

Mae'r gwaith llaw ar gyfer yr eisteddfod i gyrraedd Ysgol Bontnewydd rhwng 3.30 a 5.00 o'r gloch ar Fawrth 20fed.

Rhaid anfon unrhyw waith llenyddol i Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth, erbyn Mawrth 2il fan bellaf.

Cynhaliwyd cystadlaethau pêl-

droed 5-bob-ochr ym Mangor, Ionawr 11. Ennill un gêm a cholli dwy fu hanes yr hogia'. Diolch i Yncl Gari am hyfforddi'r tîm, ac i'r rhieni am gludo'r plant.

Bu'r tîm rygbi 7-bob-ochr yn cystadlu ym mis Rhagfyr ar gaeau Ysgol y Gelli, ond yn anffodus colli'r gêm wnaethant. Daeth mwy o lwyddiant i'r tîm pêl-rwyd pan yn chwarae yn y Waunfawr yn ddiweddar gan guro Rhostryfan 16-5.

Cofiwch ni chynhelir cyfarfod o'r Urdd ar Chwefror 19, oherwydd gwylliau hanner tymor.

Yr Ysgol Feithrin: Cynhelir disgo i blant y pentref yn y Ganolfan ar nos Fercher, Chwefror 19. Rhagor o fanylion ar bosteri yn y Ganolfan a'r siopau lleol ddechrau Chwefror.

Gwyliau: 'Roedd yn bleser gweld pobl ifanc y pentref adref dros y Nadolig. Daeth Iorwerth Williams, Heli, adref o Ynys y Caymen, a chafodd gwmni ei fam, Enid Williams, a Marian Wyn Jones i deithio yn ôl yno.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd**

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

SIOP

Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



**CANOLFAN
GARDDIO**

Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

(Aeth Y Parchedig Idris Thomas, Rheithor Trefor, i bentref Llanberis i sgwrsio â DEREK JONES, un o Ddarllenwyr Lleyg Deoniaeth Arfon a chael hanes ei fywyd.)

WYT ENAID YN TYWYNNU

Cofiaf am alwad ffôn oddi wrth fy mrawd un nos Sul ym mis Hydref eleni, ac ar ddiwedd y sgwrs dyma ofyn pwy oedd yn gwasanaethu yn ei eglwys y noson honno. 'Dim ond llond dwrn ohonom oedd yno, meddai fy mrawd, 'ond roedd yn werth y byd bod yno i glywed Derek Jones o Lanberis, boi a ddioddefodd gymaint hefo'i iechyd yn gorfforol, ond sydd â'i ffydd yn gadarn drwy'r cyfan'. Roedd y disgrifiad hwn yn sicr yn disgrifio i'r dim wrthrych y portread hwn. Ar ôl Siapter Offeiriad ym Mangor, ar fore 2 Rhagfyr 1991, euthum draw i'w gartref yn rhif 62 Maes Padarn, Llanberis, a chael croeso mawr gan Derek a'i briod Freda.

Aelwyd ac Ysgol

Ganed Derek yn Llanberis ar 29 Ionawr 1940, a hynn yn yn rhif 2 Dôl Elidir, ac mae un o'i frodyr yn byw yn y cartref o hyd. Ganed saith o blant i'w rieni, Robert Henry ac Edith Jones, ond dim ond pump ohonynt sy'n fyw heddiw. Collwyd yr hynaf, sef geneth fach, pan oedd yn fabi, a chollwyd un o'r hogiau, sef Elwyn, yn 14 oed yn dilyn damwain a achosodd ffitiau epileptig iddo, a pheri iddo orfod treulio cyfnod yn ysbyty Maghull yn Lerpwl. Mae chwiorydd Derek yn byw yn Neiniolen a Garndolbenmaen, a'i ddau frawd, fel yntau, yn byw yn Llanberis.

Aeth Derek i Ysgol Dolbadarn yn y pentref pan oedd yn 3 oed ac arhosodd yno nes ei fod yn 15 oed. Disgrifiodd yr ysgol fel un braf a hapus, a dim ond gair da sydd ganddo i'r prifathro a oedd yno ar y pryd, Mr Llew Madog Jones. Dysgodd dipyn yn Ysgol Dolbadarn.

I'r Ysgol Uwchradd ym Mrynrefail yr arferai'r plant fynd i barhau eu haddysg, ond oherwydd prinder arian ar ei aelwyd aros yn yr Ysgol Gynradd fu hanes Derek. Un o'r dylanwadau mwyaf arno yn yr ysgol oedd Miss Elizabeth Roberts, un o'r athrawesau, ac mae'r cyfeillgarwch wedi parhau hyd heddiw gan fod Miss Roberts yn un o aelodau selocaf Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

Gwaith

Yn dilyn traddodiad ei deulu, fel teuluoedd eraill bro'r garreg las, i Chwarel Dinorwig yr aeth Derek ar ôl gadael Ysgol Dolbadarn, ac fe gofia'r dyddiad fel ddod — 18 Ebrill 1955. At ei dad, ei ddau ewythr a'i frawd yr aeth gan eu bod yn cydweithio 'mewn borgen'. Bu'n rhybelwr am flwyddyn ac yna, am y pedair blynedd nesaf bu'n jermon, fel y dywedid. Felly, derbyniodd bum mlynedd o brentisiaeth Chwarel i gyd. Ym 1960 daeth newidiadau gwaith i rym, a gorfu i Derek chwilio am 'fargen' arall, ac aeth at un o reolwyr y gwaith. Ond ni dderbyniodd gymorth na chysur gan hwnnw, ac yn naturiol, roedd ei dad, fel y teulu, yn bryderus. Ond yng nghanol y picil hwn daeth gwybodaeth gan gyfaill fod swydd ar gael gan y Cyngor Sir fel labrwr, a dechreuodd ef a'i dad weithio gyda Cyngor Sir Caernarfon ar 1 Mawrth 1960, gan weithio ar gynlluniau ffyrdd. Treuliodd dair blynedd yn y swydd hon, a chofia mai cyflog bychan o tua £7 yr wythnos a dderbynai.

Ym 1963 cafodd swydd yn ffatri Ferodo gerllaw Caernarfon, ac yno

y bu hyd 1975 gan fwynhau cwmnïaeth y gweithwyr. Bu'n hyfforddi gweithwyr yn y ffatri tua diwedd ei gyfnod yno, ond roedd y cyfan yn golygu oriau mawr o waith bob dydd. Os daeth tawelwch i Chwarel Dinorwig ym 1969, daeth bywyd eto i grombil y safle gydag agor cynllun Pwerdy'r Bwrdd Trydan, ac yno yn 1975 yr aeth Derek i weithio fel Swyddog Diogelwch. Er bod y swydd hon ar garreg ei ddrws, roedd yr oriau yn hir — deuddeg awr y dydd ar adegau — ac yn ychwanegol at hyn roedd yn gallu bod yn swydd unig ar brydiau. Ar ôl tair blynedd yn Swyddog Diogelwch, bu'n gweithio i gwmni o contractwyr o fewn y Pwerdy fel cynorthwyr seiri coed, a daeth yn is-fformon i tuag wyth o ddynion. Fodd bynnag, daeth y gwaith hwnnw i ben a symudodd at gwmni a oedd yn gosod pibellau dŵr o fewn y lle.

Ym mis Chwefror 1982 daeth ei yrfa gwaith i ben, ac ymddeolodd.

Y bywyd eglwysig

Nid oed rhaid ond sgwrsio am ychydig gyda Derek Jones i sylweddoli pa mor fawr fu dylanwad yr Eglwys ac Eglwys Sant Padarn arno, er bod diolch i un rheithor yn arbennig am feithrin ei ddiddordeb. Pinael ei yrfa eglwysig oedd 14 Hydref 1972 pan gafodd ei drwyddedu yn Ddarllenwyr Lleyg yn y Gadeirlan ym Mangor gan yr Esgob Benjamin Vaughan. Ond yn drist iawn, er bod y bore hwnnw o fis Hydref yn un llawen, doedd y pnawn ddim, oherwydd claddwyd ei dad. Roedd ei dad wedi edrych ymlaen yn fawr at weld ei fab yn cael ei drwyddedu, ond nid felly y bu. Capelwr, aelod yng Nghapel Gorffwysfa, Llanberis, oedd ei dad. Efo'i fam yr âi Derek i Eglwys Sant Padarn. Saesnes oedd hi o Fanceinion. Afraid dweud fod ei rieni wedi dylanwadu'n drwm arno.

Pan oedd yn blentyn y Canon J. H. Williams oedd rheithor y plwyf ac roedd y sgowntiaid yn cael lle amlwg ganddo. Hyd at 12 oed âi Derek i'r eglwys ac i Ysgol Sul yr eglwys, ac yna aeth efo'i ffrindiau i'r capel gan fynychu'r dosbarthiadau derbyn. Ond yn ôl y gweinidog nid oedd yn fynychwr digon selog ac ni chât ei ystyried i'w dderbyn gyda'r lleill. Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, daeth cyfnod o 'lacrwydd' i'w ran am ryw flwyddyn, ac yna yn sydyn daeth rheithor newydd o'r enw Alun Jones i Lanberis, a gwawriodd cyfnod newydd yn hanes Derek. Cafodd ei berswadio i fynd yn ôl i'r eglwys oherwydd yr argraff fawr a gafodd y rheithor newydd arno.

Roedd tyrfa gref y pryd hynny yn addoli yn Sant Padarn, ac roedd y rheithor yn gwneud llawer efo'r bobl ifanc. Roedd yno Ysgol Sul gref gydag oddeutu 120 o blant ac ieuencid ac roedd bwrlwm o weithgaredd ym mywyd y plwyf.

Cafodd Derek ei hyfforddi gan y Canon Alun i fod yn was allor, a bu i'r ddyletswydd hon feithrin ymwybyddiaeth eglwysig ddofn ynddo. Yn anorod, cafodd ei gonffyrmio yn Eglwys Crist, Caernarfon, a daeth yn aelod o gôr yr Eglwys, yn Arolygwr Ysgol Sul, Ysgrifennydd Eglwys Sant Padarn a Sant Peris, ac yn ddarllenwyr y llithoedd ar y Suliau. Rhoes hynny hyder cyhoeddus iddo. Gwelodd y Canon Alun fod deunydd Ddarllenwyr Lleyg yn yr aelod egniol hwn, a dyma ddechrau mynychu dosbarthiadau i'r perwyl hwnnw a gynhelid gan y Canon R. Glyndwr Williams. Mwynhaodd y cwrs dan gyfarwydd y Canon Glyndwr, ac roedd hynawsedd ei diwtor, a oedd ar y pryd yn Rheithor Caernarfon, ac anogaeth ei reithor adref yn Llanberis yn ysbrydoliaeth.

Y tro cyntaf i Derek gymryd gwasaneth eglwysig llawn yn gyhoeddus oedd yn eglwys fach Sant Peris, a hynny ar ddydd Gwener y Groglith 1969. Mae'n mynd o gwmpas yr eglwys o hyd yn ôl y galw, ond mae wedi arafu tipyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn.

Colli Alun Jones

Ar y teledu y clywodd Derek am lofruddiaeth y Canon Alun Jones, ar 5 Hydref 1982, ac yn naturiol teimla'r golled bron i ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Torri ei galon, fel y plwyfolion eraill, a wnaeth oherwydd y llofruddiaeth erchyll, a bu'n rhaid iddo fynd at ei feddyg gan fod y sioc wedi bod mor fawr. Heddiw, fel ar y noson ddu honno o Hydref, mae'n methu credu fod y fath beth wedi digwydd mewn lle fel Llanberis.

'Aeth rhywbeth mawr o'm bywyd', meddai, 'pan lofruddiwyd y Canon, a chan ein bod yn gallu gweld y Rheithordy o'r tŷ hwn fe ddaw'r cyfan yn ôl weithiau'. Yr hyn a wna'r atgof mor drist i Derek yw'r ffaith fod y Canon Alun wedi ymweld â hwy fel teulu rai oriau cyn ei lofruddiaeth, ac yn ôl ei arfer roedd yn llawn afiaith. Nid yw'n hawdd i Derek, na llawer un arall, ddygymod ag un o benodau tristaf hanes yr Eglwys yn Llanberis.

Y Dioddefwr rhadlon

Ers 1979 mae arthrits y cymalau wedi bod yn ddrwg iawn arno. Dechreuodd fynychu ysbytai am lu o driniaethau ym 1984, a threuliodd gyfnodau yn Ysbytai Eryri ac Abergele a Gwynedd, ymysg eraill. Ym 1983 cafodd driniaeth lawfeddygol fawr i'w ben-glin a dwy flynedd yn ddiweddarach yr un peth i'w ben-glin arall. Mae'n llawn diolchgarwch i'r holl ysbytai a'r arbenigwyr a fu mor dda wrtho, a bob chwe mis mae'n mynd i weld Dr Wyn Williams, Bae Colwyn, arbenigwr ar gryd-cymalau. Mae ar dabledi yn barhaol.

Er yr holl driniaethau ysbytai cais fyw bywyd llawn, gan ddilyn gwahanol ddiddordebau. Gerallaw ei gartref mae cartref henoed Plas Pengwaith, ac mae wrth ei fodd yn mynd yno i weld y trigolion — llawer ohonynt yn gyn-aelodau o Eglwys

Sant Padarn. Pan yw'r tywydd yn braf mae'n hoff o bysgota o gwch — dal torgoch ar Lyn Padarn gerllaw ei gartref. 'Mae fy ffydd a'r Eglwys wedi bod yn gynhafiaeth i mi,' meddai, 'ac mae fy hoffter o emynau a salmau wedi rhoi i mi nerth; byddaf yn hoffi darllen emynau gan eu bod yn fyfyrddau ynddynt eu hunain ac rwy'n hoffi siantio'r salmau yn yr eglwys.' Ei hoff emyn yw cyfieithiad Stuart K. Hine ac E. H. Griffiths o 'Mor fawr wyt Ti', a chyda Derek yn adrodd ei gytgan i mi y ffarweliais ag ef, gan ddiolch i Dduw am gyfraniad a gwasanaeth y gŵr hynaws hwn wrth droed yr Wyddfa:

*Cân, f'enaidd, cân—fy Arglwydd Dduw i ti,
Mor fawr wyt ti, mor fawr wyt ti;
Cân, f'enaidd, cân—fy Arglwydd Dduw i ti,
Mor fawr wyt ti, mor fawr wyt ti.*

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



BRYN (B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisïau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Gwasanaeth Carolau Undebol: Sicrhawyd gwasanaeth cyd-enwadol arbennig iawn ar drothwy'r Nadolig yn Eglwys St Mair, ar brynhawn Sul, Rhagfyr 22ain. Braff oedd gweld cynifer o bobl yn bresennol a phawb yn yr ysbryd gorau posibl i ddathlu Gŵyl y Geni. Cafwyd eitemau gan y plant a'r bobl ifanc a hyfryd yw gweld bod gennym dalentau y dylem ymfalchïo ynddynt. Hefyd cafwyd eitemau safonol arferol gan Marina a John Eifion Jones; Evan Bryn Roberts; Sian Gibson; a diolch arbennig i Olwen Roberts am ei gwaith wrth yr organ. Fe wnaed casgliad o £30 tuag at waith Cymorth Cristnogol. Mewn llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol dywedodd Lis Perkins, Ysgrifennydd y Gogledd o Gymorth Cristnogol, ei bod yn falch o ddeall am lwyddiant y gwasanaeth undebol a'i bod yn gobeithio mai hwn fydd y cynta o lawer. Wrth gytuno yn llwyr a hynny gobeithir anelu yn awr at gynnal gwasanaeth undebol tebyg ego pan ddown at Wyl y Pasg.

Eglwys St. Mair: Wrth gydymdeimlo yn fawr â theulu y ddiweddar Mrs J. Williams, 12 Maes Eilian, yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl, mae colli Mrs Williams yn ergyd drom i'r eglwys hefyd. Roedd yr 'Eglwys Fach' yn agos iawn i'w chalon a dangosodd hynny trwy wasanaethu fel Warden ac organyddes. Bu yn Warden am dair blynedd, 1985-88. Bu iddi ymgymryd â'r swydd am gyfnod anodd iawn pan oedd y gwaith o atgyweirio tu allan i'r eglwys yn cael ei wneud. Nid tasg hawdd iawn oedd hyn ond bu iddi wneud y cyfan gyda'i brwdfrydedd arferol. Hefyd cyn iddi fynd yn sâl y llynedd bu yn organyddes am un mlynedd ar ddeg. Byddai wrth ei bodd wrth yr organ neu fel y dymunai hi ddweud 'wrth yr offeryn'. Byddai o hyd yn paratoi yn drwyadl cyn dod i'r gwasanaeth. Sicrhau bod yr emynau yn cyd-fynd â'r darlenniadau o Sul i Sul. 'Roedd hi yn barod iawn i arbrofi gyda emynau newydd ac anghyfarwydd. Cafwyd enghraifft o hyn pan ddaeth llyfrau emynau newydd i law yn ddiweddar ac yr oedd yn fwy brwdfrydig na neb i'w defnyddio. Heb amheuaeth bydd colled enfawr ar ei hôl wrth yr organ. Diolchir am ei gwasanaeth a'i chyfraniad i Dŷ Dduw yma yn Ninorwig.

Gwasanaethau: Dyma fydd trefn y gwasanaethau yn ystod mis Chwefror — 2: Cymun Bendigaid am 3.45; 9: Gosber am 3.45; 16: Cymun Teuluol am 10; 23: Ni fydd gwasanaeth — yn hytrach ymuno mewn Gwasanaeth Conffyrmasion yn Eglwys Crist, Llandinorwig.

Bydd y gwaith o lanhau'r eglwys am fis Chwefror yn nwylo Mrs Glenys Jones, 4 Bro Elidir, ac fe roddir blodau ar yr allor gan Mrs Ethel Williams, 3 Maes Eilian (Chwefror 9, 16, 23).

Cyngor Cymuned: Unwaith yn rhagor mae'r Cyngor Cymuned wedi gofyn i adran priffyrdd y Cyngor Sir i dynnu i lawr yr arwydd 30 m.y.a ar ben Gallt y Foel. Rhaid gwneud hynny os am gyfyngu cyflymdra modurwyr trwy Dinorwig. Hefyd diolchwyd i'r Cyngor Sir am atgyweirio y wal ar hyd y llwybr cyhoeddus gyferbyn a'r Ganolfan. Ar yr un pryd tynnwyd sylw y Cyngor Sir at yr angen i glirio ffosydd a threiniau wrth ymyl Capel Sardis a Ty'n Fawnog, yn arbennig felly yn sgîl y twydd gwlyd a gawsom ar ddechrau'r flwyddyn.

Pwyllgor Adloniant Dinorwig: Cyn y Nadolig cyflwynodd y pwyllgor rodd ariannol o £100 tuag at gostau cludo disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi i'r pantomeim 'Y Brenin Arthur a'r Blewyn Hir'.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Te Parti: Ar Ragfyr 18 cynhaliwyd te parti i blant Ysgol Sul Tan-y-coed. Diolch yn fawr i'r athrawon a mamau'r plant am eu hamser yn paratoi'r parti.

Cyfarfod y Plant: Cynhaliwyd Cyfarfod y Plant ar Rhagfyr 22. Yn cymryd rhan roedd Dafydd a Robin Thomas, Ceri a Dafydd Williams, Sophie Angharad Roberts, Natalie Blanchard, Sion, Iwan a Bethan Pritchard a Rheon Parry. Hefyd yn cymryd rhan roedd Miss M. A. Humphreys a Sharon Blanchard, ac yn cyfeilio roedd Mrs Nia Roberts.

Gwellhâd Buan: Dyna a ddymunwn i Mrs Katie Williams ar ôl treulio amser yn yr ysbty, ac sydd yn awr yn y Foelas, Llanrug.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Eglwys M.C. Brynrefail: Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig bnawn Sul, Rhagfyr 22ain. Trefnwyd ac arweiniwyd y cyfarfod a oedd ar y thema 'Awn i Fethlem' gan Mr Gwyn Hefin Jones a Miss Lowri P. Roberts. Cyflwynwyd darnau o'r Ysgrythur gan Mr Maurice Jones, Mr Bertie Roberts a Mrs Jennie A. Roberts. Cafwyd cyflwyniadau o gerddi a darlenniadau gan Mrs Dilys Evans, Mrs Dwynwen Williams, Mrs Eirlys Williams, Mrs Pat Jones, Mrs Carol Houston a Nicola Houston, Mrs Jennie Hughes, Mrs Betty Owen, Mrs Ifanwy Jones ac Einir Gwyn. Canwyd carolau gan Mrs Euronwy Roberts, Mrs Mair Davies a Rhian Davies, a Catrin Gwyn. Cymerwyd rhan mewn carolau ac adroddiadau gan blant yr Ysgol Sul — Rhian, Ruth a Bethan Owen, Iestyn ac Ellen Williams, Dylan Davies, Amy Lambert a Dana Jones a chyflwynwyd anrhegion iddynt gan Mrs Jennie A. Roberts ynghyd â gair pwrpasol gan Miss A. M. Williams. I gloi'r gwasanaeth cafwyd datganiad o'r garol blygain 'Carol y Swper' gan barti Sefydliad y Merched ac yn dilyn mwynhaodd pawb o'r gynulleidfa baned a mins pei yn y Ffestri.

Yn y casgliad a wneir o Sul i Sul gan ddosbarth yr oedolion yn yr Ysgol Sul casglwyd y swm o £60 yn ystod 1991. Cyflwynwyd £30 yr un i Gronfa Deillion Gogledd Cymru, trwy law Mr John Owen, Penrhyn Bach, Llanrug, tuag at waith casetiau i'r deillion, ac i Gartref Henoed Plas Pengwaith. Anfonwn ein cofion gan ddymuno adferiad iechyd i Mr John O. Jones, Glandwr, trysorydd gofalus y casgliad blynyddol hwn, sydd wedi methu dilyn y dosbarth ers rhai misoedd. Brysiwch wella.

Nos Sul, Ionawr 19eg, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dechrau blwyddyn. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y Gweinidog, Y Parchg John Morris, ynghyd â rhannau pellach gan Miss Lowri P. Roberts, Mr Richard W. Evans a Mrs Jennie A. Roberts. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Gwyn Hefin Jones.

Profedigaethau: Daeth y cyfnod fu'n arwain tuag at y Nadolig ac yn ddechrau'r flwyddyn newydd â phrofedigaethau o golli anwyliad i nifer o deuluoedd yn y pentref. Ar Ragfyr 11eg yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, bu farw yr hynaf o drigolion y pentref, Mr W. R. Evans, 1 Ffrwd Madog, wedi cyrraedd yr

oedran teg o 99. Mewn ychydig ddyddiau, ar Ragfyr 15fed, bu farw'n sydyn, Mr Gwilym Jones, Cyti (Tros yr Afon gynt) yn 68 oed. Yn dilyn gwasanaeth yn y cartrefi bu arwyl y ddau yn Amlogsgfa Bangor gyda'r Parchg John Morris yn gwasanaethu.

Ar Ionawr 9fed, wedi cystudd hir yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, bu farw Mrs Jennie Evans, 6 Minffordd, yn 80 mlwydd oed. Bu'r angladd preifat yn y cartref ac yn dilyn yn gyhoeddus ym mynwent Nant Peris ar Ionawr 14eg.

Yn ei chartref, Llwyncoed Bach, ddydd Sadwrn, Ionawr 18fed, bu farw Mrs Helen Roberts, wedi dioddef cystudd hir yn wrol a siriol am lawer blwyddyn. Bu'r angladd cyhoeddus yn y cartref ac ym mynwent Llanrug, dydd Mercher, Ionawr 22ain.

Mae ein cydymdeimlad fel pentrefwyr yn ddwys â theuluoedd y cyfryw rai yn eu colled â'u hiraeth. **Cofion:** Anfonwn ein cofion at Mr Thomas Jones, 2 Ffrwd Madog, sydd wedi cartrefu ym Mhlas Pengwaith ers rhai misoedd ond sydd ar hyn o bryd yn yn Ysbyty Gwynedd.

Diolchiadau:

Dymuna ian, Jacqueline a Dilys, Cytir, ddiolch yn fawr am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad a brawd annwyl, sef Mr Gwilym Jones. Hefyd diolch am y rhoddion ariannol a gyflwynwyd i'r Feddygfa, Llanberis.

Dymuna teulu y diweddar Mr W. R. Evans, 1 Ffrwd Madog, ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli tad, taid a hen-daid annwyl. Diolch i Gartref Nyrsio Penisarwaun am eu gofal, i'r meddygon teulu ac am y rhoddion tuag at Feddygfa Llanrug a'r Waunfawr. Diolch hefyd i'r Parchedigion John Morris a John Pritchard am eu gwasanaeth ac i'r ymgymerwyr Mr Myrddin Pritchard am ei drefniadau trylwyr.

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail: Enillwyd Clwb 100 am fis Ionawr — Elizabeth Hughes, Dôl Afon, Cwm y Glo (10); Llinos A. Foulkes, Maes Padarn, Llanberis (4); Margaret Parry, Bro Dawel, Llanrug (23). Mae lle eto i fwy o aelodau. Os oes diddordeb gennych yn cysylltwch â'r Cadeirydd, Mr Dafydd Evans, yn Ysgol Brynrefail.

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cottractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn
eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
5754

**CRIB
COCH**

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I,
BAWB O'R TEULU
GAN JEN
Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

GERDDI GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)
PENISARWAUN

Mae'r gwanwyn
yn dod!

Cyn plannu
galwch heibio
neu ffoniwch
8870453

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Fêlinheli 670726

Cydymdeimlo:

Ddydd Llun, Rhagfyr 30, ar ôl gwaeldd hir bu farw Mrs N. Morris, Rhoslan, Fachell, Llanddeiniolen. Cynhaliwyd yr angladd yn Llanddeiniolen ddydd Gwener, Ionawr 3. Estynnir pob cydymdeimlad â Mr Idris Morris a'r teulu yn eu profedigaeth.

Ddydd Iau, Ionawr 9, yng nghartref y Parchg E. R. Hughes a Jean yn Nefyn, bu farw Mrs Christeson, Tŷ Capel Cysegr. Cynhaliwyd yr angladd yn Y Cysegr ddydd Mercher, Ionawr 15. Estynnir pob cydymdeimlad â Jean a'r teulu yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Janice Price, Llys Gwynt, Seion, ar ei dyweddiad â Geraint o Bontnewydd. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Derbyn yn Gyflawn Aelodau: Yn Y Cysegr yn ddiweddar derbyniwyd saith o blant yr eglwys yn gyflawn aelodau gan y Gweinidog, Y Parchg W. R. Williams. Derbyniwyd Manon Elis, Cilgeran; Aled Griffiths, Llwyn Eithin; Esyllt Môn Jones, Y Rhos; Bethan Jones, Fachell; Sioned Owen, Cefn Cynrig; Ruth Parry, Wilnor a Bleddyn Williams, Tŷ 'Rallt.

Caniadaeth y Cysegr: Nos Fercher, 15 Ionawr, recordiwyd y rhaglen 'Caniadaeth y Cysegr' yng nghapel Saron. Darlledwyd y rhaglen ddydd Sul, Ionawr 26.

Pêl-droed: Bethel oedd enillwyr pêl-droed 5-bob-ochr adrannau pentrefi dan 12 oed yng nghystadlaethau chwaraeon, rhanbarth Eryri yr Urdd, ar ddydd Sadwrn, 11 Ionawr. Yr oedd dros ugain o bentrefi yn cystadlu ym Mangor ac ni lwyddodd yr un tîm i sgorio yn erbyn yr enillwyr.

Clwb Ffermwyr Ieuainc: Bu aelodau'r Clwb yn brysur yn ystod y tri mis diwethaf. Cafwyd, yn ardal Llanrwst, lwyddiant ar farnu biff — Rhys Morgan yn ail dan 16 ac Aled Jones yn ail dan 21. Barnu gwartheg — Meilyr Breese yn drydydd dan 16 ac Eurwyn Jones yn ail dan 26. Daeth y ddau dîm yn drydydd ac fe ddaeth y tîm yn bedwerydd mewn cystadleuaeth ffensio.

Gosodwyd torch Sul y Cofio gan Aled Jones a Tudur Parry.

Ar 18 Tachwedd treuliodd y noson ym Mhlas y Brenin, Capel Curig, yn sgîo. 'Roedd amryw i ben-ôl poenus fore trannoeth! Noson o sleidiau ar 'Ddiogelwch ar y Fferm' gyda Mr Neil a gafwyd ar 26 Tachwedd. Oherwydd nifer o resymau ni chynhaliwyd parti Nadolig.

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd rydym yn brysur yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus, nofio, tenis bwrdd a badminton.

PENCAMPWYR PÊL-DROED RHANBARTH ERYRI



THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

I glywed mwy Ffoniwch 673366 a gofynnwch am Maggie

Swper rhamantus i ddau

Cinio hamddenol

Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi

Brecwast, cinio neu

swper busnes

Parti dathlu

Cinio Dydd Sul i'r teulu

Gwledd brodas fythgofiadwy

Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd

Ymlacio ym mar y llyfrgell

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd yn Hafan Elan, Llanrug. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi. Darllenwyd cofnodion o'r pwyllgor a gafwyd yn ystod mis Rhagfyr a phasiwyd eu bod yn gywir. Y mae rhai aelodau yn dal yn wael eu hiechyd ac anfonwn ddymuniadau da iddynt. Ar fyr rybudd daeth Mr Peter Taylor i'r cyfarfod a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo am ei wyliau yn Florence y llynedd. Diolchwyd i Mr Taylor gan Mrs Pierce. Yn gofalu am y te roedd Mrs Taylor, Mrs C. Jones a Mrs Pierce. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Taylor ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwyneth Roberts.

Clwb Pobl y Cwm: Ar Ragfyr 12 cynhaliwyd ein cyfarfod olaf cyn y Nadolig a threfnwyd te parti bach i ddathlu'r Wyl. Cyn i wledd buom yn hel atgofion am arferion a rhai cymeriadau a fu yma gynt, a theimlo chwithdod am lawer o'r pethau a fu.

Arferai pawb bron fynychu capel neu eglwys, ac ymunai pawb yn yr Eglwys ar gyfer gwasanaeth olaf y flwyddyn, a byddai rhyw naws arbennig yn y canu i groesawu'r flwyddyn newydd, ac i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'n gilydd.

Cafwy te parti ardderchog a hoffai'r aelodau ddiolch yn gynnes i bawb a gofiodd amdanom eleni eto. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad buan i rai o'n haelodau sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd, a dymunwn flwyddyn DDA i bawb. Enillydd y raffl oedd Mr Llew Hughes.

Llongyfarchiadau:

—i Nerys Williams, Bwlch, ar achlysur ei phenblwydd yn 21 oed;
—i Marie ac Alan Jones, Mona, ar enedigaeth eu mab bach, Dewi Wyn, wyr cyntaf i Mr a Mrs Hugh Jones, Bod Elan;

—i Mrs Annie Hughes, Bryn, ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed.

Gwellhad Buan: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mr Tony Jones, Isfryn; ac i Mr Morris, Goleufryn, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlo: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Bertie Roberts, Llwyncoed Bach, a'r teulu oll, yn eu profedigaeth o golli priod, mam a chwaer annwyl, Mrs Helen Roberts.

Diolchiadau:

Dymuna Avril ac Eifion Jones, Glan y Don, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion, am y cardiau

a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigeth Anest.

Dymuna Mrs Annie Hughes, Bryn, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a'i holl ffrindiau, o bell ac agos, am y caredigrwydd mawr a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr iawn.

Ysgol Cwm-y-Glo: Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Dwi'n gw'bod fy mod i'n hwyr ond rydw i'n gredwr yn yr Hen Galan, felly tydw i ddim cymaint a hynny ar ei hôl hi!

Y peth cyntaf sydd wedi digwydd i ni eleni ydy fod Miss Rouchy wedi cael Frech yr leir. Ar hyn o bryd, mae hi adref yn ei gwely ond gobeithiwn y bydd yn gwella yn fuan iawn ac y caiff ddod yn ôl atom.

Yr ydym yn croesawu atom, y tymor yma, Mrs Eleri Owen — athrawes bro o Fangor ond efo profiad o ddysgu yn Llangefni, Ynys Môn (lle da drybeilig, yntê!). Gobeithio y bydd hithau yn mwynhau ei hun yn ein mysg fel ag y mae Angharad Swift yn ei wneud. Daeth Angharad yn ôl atom ddiwedd y tymor diwethaf wedi bod yn y Ganolfan Iaith ym Maesincla. Mae Mr Now Jones wedi galw i'n gweld hefyd i geisio ein rhoi ar ben y ffordd efo'r cyfrifiaduron yma.

Un arall o'r hen ffrindiau sydd wedi galw i'n gweld yw Mrs Beti Parry yn rhoi sgwrs am lanweithdra i'r plant ieuengaf. Mae gofal Mrs Parry amandom fel gofal iâr am ei chywion. Diolch Mrs Parry.

Ar ôl prysurdeb y Nadolig, mae'n amser dechrau meddwl am ddathlu Gŵyl Dwynwen, a fydd hi ddim yn hir na ddaw Dydd Gŵyl Dewi Sant, ac wedyn bydd yn Basg ar ein pennau. Tydy'r misoedd 'ma yn mynd yn gyflym, d'wch?

Am y tro cofion at bawb o ffrindiau'r ysgol gan gofio yn arbennig am dad Arwyn Jones sydd yn yr ysbyty. Gobeithio y caiff ddod adref ac y bydd, fel taid Kim, yn gwella'n fuan.

Tan tro nesa', yn iach a di-bechod y boch. Hwyl fawr.

TAN-Y-COED (Parhad)

Actores Ifanc: Llongyfarchiadau i Siwan Humphreys ar ei pherfformiad yn 'Un Nos Ola' Leuad' a 'Traed Mewn Cyffion' a fu ar y teledu yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Band: Dymuna'r Band ddiolch i'r ardal am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn diwethaf.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn newydd ar nos Fawrth y 14eg o dan lywyddiaeth Miss Phyllis Ellis. Methodd y wraig wadd, Mrs Nesta Pritchard a bod yn bresennol. Llanwyd y bwlch gan Mrs Jill Brown o'r Waunfawr, fu'n olrhain cyfnodau gwahanol yn ei bywyd trwy gyfrwng celf a chrefft. Casglwyd arian i Gronfa Llinos Haf sydd yn dioddef o lid yr ymennydd. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Bethanne Williams, a Mrs Beryl Thomas. Enillydd y raffl oedd Mrs Olwen Huws. Gofynnir i bawb sydd â diddordeb mewn bod yn y côr i ddod i'r ymarfer yn Festri Capel Pont-rhythallt am 8 o'r gloch ar nos Fawrth. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Chwefror 11, pryd y disgwylir Mrs Noel Jones, Pen-y-groes i osod blodau a rhoi darlenniadau ar thema 'Y Pasg'.

Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr: Cynhaliwyd y gwasanaeth Carolau ar nos Sul, Rhagfyr 22 gyda'r Parchg John Morris, Mrs Beryl Griffith, Miss M. G. Roberts, Mrs Rhian Jones, Llyr Roberts, Mrs Arthur Jones, Mr Alf Parry, yn gwneud eu rhan. Nos Fercher, Ionawr 8, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi o dan nawdd y Gymdeithas a chymerwyd rhan gan Mr Alf Parry, Mrs J. Parry, Mrs Jean Davies, Mrs M. Roberts, Mr J. W. Owen, Mr Meurnyn Roberts, Mrs B. Thomas, a'r Parch John Morris.

Llongyfarchiadau i Mrs Cened Mckinnon, Plas Tirion, ar lwyddo i fod yn un o feirniaid swyddogol yn yr Adran Coganio i Fudiad Sefydliad y Merched.

Plaid Cymru: Croesawodd y cadeirydd, Phyllis Ellis, Gyngorwyr yr ardal i gyfarfod y gangen nos Fercher, Chwefror 15, yn y Sefydliad Coffa. Y siaradwr oedd Rhodri Davies, ymgeisydd seneddol etholaeth Conwy a chawsom anerchiad ganddo ar Bolisi Tai Plaid Cymru gyda thrafodaeth adeiladol yn dilyn. Paratowyd y te gan Nan Humphreys a Meirwen Lloyd, rhoddwyd y raffl gan Olwen Llywellyn a'r enillydd oedd Gareth Williams, Bron Wenda. Cyfeiriwyd at anhwylder amryw o'n haelodau a'u teuluoedd ac anfonwn ein cofion

cynnes atynt oll.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Chwefror 19, yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch pan ddaw Mary Vaughan Jones, Waunfawr, atom i roi sgwrs a dangos lluniau. Fe ddathlwn Gŵyl Ddewi gyda Thwmpas Dawns a Bwyd Basged yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Y gŵr gwadd fydd Dyfan Roberts. Noson i'r teulu fydd hon gyda chyfeillion canghennau Llanberis, Deiniolen, Y Waunfawr a Dyffryn Ogwen yn ymuno â ni. Yn dilyn llwyddiant y llynedd edrychwn ymlaen at noson hwyliog eto eleni. Cofiwch roi gwybod beth fydd eich dewis o fwyd wrth brynu eich tocyn. Y pris fydd oedolion £4.50, plant £2.75. Fe welwch y manylion yn yr hysbyseb yn yr Eco.

Ysgol Gynradd Llanrug

Pennaeth Newydd: Croesewir Mr Robin Williams yn bennaeth newydd yr ysgol, a dymunir yn dda iddo gyda ni. Diolchir i Ms Amranwen Lynch am ei gwaith fel pennaeth dros-dro.

Llongyfarchion: Hyfrydwch yw cael llongyfarch Graham ac Amranwen ar eu priodas ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 21, yng Nghapel Pont-rhythallt.

Gwersyll Glanllyn: Bu nifer o'r disgyblion hynaf yng Nghanolfan yr Urdd yng Nglanllyn gyda Mr Robin Williams yn ystod wythnos gyntaf y tymor hwn. Cafwyd amser da a chofnodwyd hwyl y gweithgareddau ar ffilm fideo. Cafodd holl blant yr ysgol gyfle i'w mwynhau.

Pêl-droed 5-bob-ochr: Llwyddo fu hanes y tîm yng ngornest yr Urdd ym Mangor ar ddydd Sadwrn, Ionawr 11. Daethant yn fuddugol yn yr adran ysgoliokn, a threchu tîm gorau'r adran pentrefi hefyd gan ddod a Tarian Eryri yn ôl i'r ysgol wedi bwlch o flwyddyn. Y cam nesa' fydd yr ornest genedlaethol yn Aberystwyth. Pob lwc i'r hogiau: Wayne, Meilir, Eifion, Gareth, Dyfan, Gerallt (eilydd) a Siôn Arfon (eilydd).

Cwis Llyfrau: Daeth timau'r ysgol (dan 12 a than 10) yn drydydd drwy Wynedd yn y Cwis Llyfrau Cymraeg, gan ennill pwyntiau anrhydeddus iawn. Derbyniodd yr aelodau dystysgrifau i gydnabod eu hymdrech.

Llongyfarchiadau i Delyth Humphries, 17 Stad Minffordd, ar basio Gradd 5, piano o dan y Coleg Cerdd Brenhinol. Mae Delyth yn ddisgybl i Sandra Jones, Caernarfon. **Priodas Arian:** Ar achlysur dathlu eu Priodas Arian derbyniodd Bryn a Helen Lewis, Dwyfor, Ffordd yr Orsaf, llu o gardiau ac anrhegion a dymunant ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu dymuniadau gorau.

Diolchiadau:

Dymuna Judy Roberts, Crigyll, Lôn Groes, Llanrug, estyn ei diolchiadau cynnes i bawb a fu mor garedig a phrynu cardiau ac anrhegion Nadolig ganddi. Mewn canlyniad i'r ymdrech fe rannwyd swm o £220 rhwng unedau arennau Ysbyty Alder Hey, Lerpwl ac Ysbyty Frenhinol y Plant, Manceinion.

Dymuna Mr R. Pritchard, Tŷ Newydd, Llanrug, ddiolch i'w ffrindiau a'i gymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra y bu yn yr ysbyty ac ar ôl iddo ddod adref.



Dyma'r tîm 5-bob-ochr buddugol — Gerallt, Gareth, Meilir, Wayne, Eifion a Dyfan. Roedd Siôn Arfon ar ei wyliau pan dynnwyd y llun. Isod mae llun tîm pêl-rwyd Ysgol Llanrug gyda Mrs Maggie Jacobs o'r Seiont Manor. Noddwyd y wisg newydd gan y gwesty a daeth a lwc i'r genethod yn eu gêm gyntaf — Bontnewydd 5, Llanrug 15.



PLAID CYMRU — CANGEN LLANRUG SGWRS A LLUNIAU

gan Mary Vaughan Jones, Waunfawr
Nos Fercher, Chwefror 19, yn y Sefydliad Coffa
am 7.30 o'r gloch
CROESO I BAWB

CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 4652

MODURDY PLAS BACH CAEATHRO

Ffôn: Caernarfon 2072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri

am brisiau rhesymol

ELWYN PRITCHARD

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Gwener
10.00 — 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

Llanberis 870922
neu Bangor 351427

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Clwb Pêl-droed Deiniolen: Dyma enillwyr y Clwb 200, 17/1/92 — 1, £80: Karen Jones (8); 2, £40: Bryn Caradog (82). Diolch am eich cefnogaeth.

Eglwys Libanus: Pnawn Sadwrn, 4 Ionawr, yng Nghapel Penuel, Bangor, sefydlwyd y Parchedig Olaf Davies yn Weinidog ar Eglwys Penuel; Bethel, Llanllechid; Sardis, Dinorwig; a Libanus, Clwtybont. Bore'r Sul trannoeth bu'r Eglwys yn cyd-gymuno ym Mhenuel dan arweiniad y Gweinidog newydd. Pnawn Sul, 19 Ionawr, y cafwyd y cyfle cyntaf i groesawu'r Parchg Olaf Davies i bregethu yn Libanus. Edrychir ymlaen am flynyddoedd lawer o gydweithio rhwng eglwysïr ofalaeth.

Eisteddfod Gwaun Gynfi: Nos Wener, 7 a'r 21 Chwefror bydd Is-bwyllgorau'r 'Steddfod yn cyfarfod yn Neuadd y Ganolfan, i bennu rhaglen yr Eisteddfod am eleni. Eisoes derbyniwyd cadarnhad Llywyddion ac Arweinyddion sesiynnau'r Eisteddfod, sydd i'w chynnal ar 30 a 31 Hydref, eu bod yn derbyn ein gwahoddiad iddynt gymryd rhan. Eleni am y tro cyntf bydd rhai o bobl ifainc y pentref yn rhannu'r arweiniad ar y llwyfan.

Cyngor Eglwys Deiniolen: Y Parchg Tegid Roberts fydd yn cynnal oedfa dan nawdd y Cyngor yn Eglwys Llandinorwig, am saith o'r gloch, nos Lun, 10 Chwefror. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r oedfa. Cafwyd cychwyn bendithiol i raglen y Cyngor am 1992 mewn gwasanaeth dechrau'r flwyddyn, dan arweiniad y Parchg Ifor Williams, a gynhaliwyd yng Nghapel Libanus ar nos Lun, 13 Ionawr. Diolchir i'r pentrefwyr am eu cefnogaeth i ymdrechion y Cyngor yn codi arian at Cymorth Cristnogol yn ystod 1991. Anfonwyd £794 gan y Cyngor y llynedd at y mudiad dyngarol hwnnw.

Y Ganolfan: Yn dilyn trafferthion ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, braf yw nodi fod y problemau wedi cael eu goresgyn erbyn hyn. Llwyddwyd i gael swyddogion newydd, am gyfnod beth bynnag. Yr ysgrifennydd llogi newydd yw Mr R. Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolen (872571) a thêg yw nodi er mwyn hwyluso'i waith yw y dylai dderbyn *cais ysgrifenedig gyda'r tâl priodol* am ddefnydd o'r Ganolfan. Priodol hefyd yw atgoffa'r llogwyr y codir tâl llawn os na roddir o leiaf 24 awr o rybudd o ddileu unrhyw

fenthyciad o'r adeiladau. Y gobaith yw yn awr y bydd trigolion Deiniolen a'r cylch yn tynnu at ei gilydd er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Ganolfan.

Merched y Wawr: Daeth criw da i gyfarfod mis Ionawr. Noson o eitemau gan aelodau'r gangen a gafwyd a chymerwyd rhan gan Mrs Eirlys Williams, Mrs Buddug Jones a Iona Richards. Enillwyd y raffl gan Mrs Marian Williams.

Llongyfarchiadau i Dylan Wyn Jones, 3 Rhydfadog, Deiniolen, ar ei ddywedd i Miss Kathie Mitchell, 2 Gwyrfa Cottages, Bontnewydd, ar Ragfyr 22. Dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

Llongyfarchiadau i Elfed Morgan Morris, Llechwedd, Deiniolen, a enillodd y wobwr gyntaf ar yr unawd 8-10 oed yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen, Tachwedd 1991, ac hefyd am ennill y darian am y perfformiad gorau o dan 10 oed.



Hefyd llongyfarchwn Martin Llewelyn Williams, Pen-y-Golwg, ar ei lwyddiant yn ei arholiadau yn ddiweddar. Enillodd anrhydedd yng ngradd VI gyda'r Flugel. 'Roedd yr arholiadau dan nawdd yr Ysgol Gerdd Frenhinol.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys ar Ionawr 7. Llwyddwyd y cyfarfod gan y Parchg Tegid Roberts a Mrs Eileen Hughes. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mrs Roberta Griffiths yn dangos sut i ddefnyddio peiriant gweu. Diolchwyd i Roberta gan Mrs Eurwen Roberts. Rhoddwyd y te gan Miss Jean Moeller a Mrs Pat Hayers. **Sefydliad y Merched:** Cafwyd cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd ar nos Lun, Ionawr 6. Llwydd y noson oedd Mrs Marian Williams. Wedi dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb aed ymlaen gyda gohebiaeth y Sefydliad a threfnu rhaglen. Roddwyd y te a'r wobwr lwcus gan Mrs Marian Williams ac fe'i henillwyd gan Miss Eileen Williams. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Chwefror 3, pryd y dangosir sleidiau o un o'i theithiau gan Miss Jean Moeller. Croeso cynnes i bawb. **Diolch:** Dymuna Mrs J. Evans, 31 Rhydfadog, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a'i holl ffrindiau am y rhoddion, cardiau a'r blodau a dderbyniodd pan yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed yn ystod mis Rhagfyr. Diolch yn fawr i bawb.

CHWILOTA YR HEN YMLADDWYR



Diddorol oedd cais y golygydd chwaraeon yn y rhifyn diwethaf ynglŷn â thraddodiad o baffio neu focsio yn y fro. Roedd ymaflyd codwm yn gamp eithaf poblogaidd wrth gwrs, ac yr oedd cryn fri yn cael ei roi ar gryfder corfforol rhai o'r gwŷr hyn. Does dim angen ymhelaethu am hanesion Ffowc Tŷ Du, Llanberis. Ond a oedd yna 'enwogion' eraill tybed.

Owain Dafydd Luke oedd un o'r hen ymladdwyr hyn. Fe'i ganed tua 1741, ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanrug yn 1825. Bu'n briod ddwywaith — gydag Elin Jones (1762), a Mary Rowlands (1796). Roedd yn byw am y rhan helaethaf o'i oes yn Nhy'n y Coed, Llanrug, ond erbyn diwedd ei oes roedd wedi symud i Benrallt, Caernarfon. Mae'r Parch Peter Bailey Williams wedi ysgrifennu hynny a wyddom amdano fel ymladdwr ar gofnod ei gladdu yng Nghofrestr Plwyf Llanrug: *'when a young man he was very strong and a great fighter'*.

Brawd iddo oedd Robert Dafydd Luke a oedd yn byw yn ardal y Waunfawr. Cawr o ddyn, a'r un mor enwog a'i frawd am ei gryfder. Dywedir ei fod yn medru adeiladu tŷ o'i sylfaen i'w grib heb gymorth — a hynny am bris o £7 neu £8. Oherwydd ei faint, aml iawn y byddai'n cael ei herio i ymladd mewn ffeiriau. Yn ôl traddodiad cafodd 'droedigaeth' mewn pregeth gan Richar Tibbot yn Nhy Ucha'r Ffordd, Waunfawr. Unwaith yn unig yr ymladdodd wedyn, a hynny oherwydd i rywun edliw ei grefydd iddo.

Ceir hanesion am ymladdau dychrynlyd yn digwydd yn Llan-

ddeiniolen hefyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yn amlwg mai ymladdau wedi eu trefnu oeddynt, gan fod 'second' gan bob ymladdwr. Yn y Llan-isaf, ger eglwys y plwyf, roedd y gornestau'n cael eu cynnal, a cheir hanes am un arbennig rhwng gŵr o'r enw Salmon, Cae Seiri, a William Siôn Dafydd, Bryn Coch. Dywedir fod ugeiniau o bobl wedi dod yno i wyllo'r ornest. Rowland Efan y Celyn oedd 'second' Williams Siôn Dafydd. Does dim sôn am 'second' Salmon — efallai mai dyna pam y collodd!

Mae'n ymddangos i'r arfer o gynnal ymladdau cyhoeddus ddechrau marw o'r tir fel yr oedd y Diwygiad Methodistiaidd yn gwreiddio yn yr ardal. Tybed pryd bu'r ymladdfa gyhoeddus olaf yn y fro? Mae rhai yn credu fod yr arfer wedi ei gynnal yn y chwareli llechi hefyd, a hynny ymhell i ganol a diwedd y ganrif ddiwethaf — ond a oes tystiolaeth bendant i gadarnhau hynny?

Byddai'n ddiddorol cael gwybodaeth am rai o'r cymeriadau y soniwyd amdanynt eisoes. Ni wn ble y cafodd y ddau frawd Owain a Robert Dafydd Luke eu geni. Ble, yn ardal y Waunfawr yr oedd Robert yn byw? A phwy oedd William Siôn a Salmon? Oes rhai o ddisgynyddion yr hen ymladdwyr hyn yn parhau i fyw yn y fro? Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth.

* * * * *

Daeth ymateb gan Mrs Eirlys Williams o Bentre Helen, Deiniolen i'r cais am wybodaeth ynglŷn ag Eos Marchlyn. Dyma sydd ganddi i'w ddweud:

Ei enw oedd Griffith Williams, 10 Porth y Gogledd, Deiniolen (neu Ebeneser), enw ei wraig oedd Catrin Jane. 'Roedd iddynt dri o blant, ond bu dau farw yn ifanc.

Claddwyd ef ym mynwent Macpela. Bu Dafydd (Rios ar lafar gwlad), eu mab, fyw gyda'i fam am flynyddoedd drws nesaf i'm cartref yn 9 Porth y Gogledd. Nid oes gennyf ddim cof am yr Eos ei hun, ond wedi holi cefais mai dyn bychan o gorff — 'stwcun' go dew felly — ydoedd. 'Roedd gennym ni oll feddwl mawr o 'Auntie' fel y'i galwyd gennym.

Tyner gof am Dad a Mam annwyl
— William Thomas a Mary Jones,
Clwt-y-bont.

*Cilio mae amser
Newid mae'r byd
Ond hiraeth amdanoch
Sydd arnaf o hyd.*

Eu merch,
Dorothy May, Caernarfon

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

GWERTHU
— TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

**IEUAN
WILLIAMS**

**Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484**

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd Adran Bentref: Gweithgaredd cyntaf y flwyddyn oedd gêm chwilen, nos Fawrth, Ionawr 7. Ionawr 14: daeth yr aelodau a'u hoff bethau i'w dangos; Ionawr 21: noson yng nghwmni y naturiaethwr Duncan Brown; Ionawr 28: Islwyn Williams; Chwefror 4: Miss Phyllis Elis; Chwefror 8 (bore Sadwrn): edrychir ykmlaen am gêm bêl-droed yn erbyn Adran Llanybi. Cychwynnir o groesffordd King am 9 a.m. Dymuni'r hwyl i'r tîm. Chwefror 11: noson i'w threfnu; Chwefror 18: sgwrs gan Len Porter; Chwefror 25: Dawnsio Gwerin gyda Mrs Judith Harding.

Llongyfarchiadau a phob bendith i Amranwen a Graham, Gwyddfor, ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Pob dymuniad da hefyd i Dic a Myfanwy Parry ar ddathliad eu Priodas Berl.

18 oed: Dymunir pob bendith a llwyddiant i'r dyfodol i Dylan Price Williams, Caer Bythod ar achlysur ei benblwydd yn 18 oed ar Ionawr 18. **Ysgol Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen:** Pnawn Sul, Rhagfyr 22, braf oed gweld cynulleidfia deilwng wedi troi i mewn i gyd-addoli â phlant Ysgolion Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen. Cafwyd darlleniadau gan yr athrawon ynghyd â Stori'r Geni ar lafar a chân gan y plant. Tyner iawn oedd gofal Joseff o'i Fair, ond druan o'r oen bach, bu bron iddo golli'i glust! Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch Tegid Roberts. Derbyniwyd casgliad o £40 tuag at Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd. Diolchir i'r plant a'r athrawon am eu gwaith trylwyr.

Yn Neuadd yr Eglwys bnawn Llun, Rhagfyr 23, mwynhaodd aelodau'r Ysgolion Sul barti Nadolig gwerth chweil. Daeth Siôn Corn i'w gweld a chyflwyno anrheg a ffrwythau i bob un. Diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y parti. Diolch arbennig i Siôn Corn am ei eiriau caredig i bob plentyn.

Wedi rhialtwch y Nadolig, hyfryd oedd ymuno mewn gwasanaeth undebol yn yr Eglwys yng ngwasanaeth y Cristingl dan ofal y Parch Tegid Roberts. Cafwyd eitemau gan y plant a derbyniodd pawb Oren y Cristingl. Gwnaed casgliad o £60 tuag at Gymdeithas y Plant yng Nghymru, a 'Sight Savers' yn Affrica. Diolchir i bawb am eu haelioni.

Gwellhad: Da clywed fod Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer yn gwella wedi'i thriniaeth yn yr ysbyty.

Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Alwyn Jones, Racca, sy'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty ym Mangor. I chwithau sy'n sâl yn y pentref, brysiwch wella i gyd.

Pwyllgor Neuadd Bentref: Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at weithgareddau'r pwyllgor o godi arian er budd y Neuadd Gymunedol yn ystod 1991. Diolchir hefyd i aelodau'r Clwb Cant am eu haelioni — atoffir chwi yr adnewyddir yr aelodaeth — £6 y flwyddyn neu 50c y mis. Gellir cysylltu ag unrhyw un o aelodau'r pwyllgor. Byddwn yn brysur yn ystod 1992 yn codi arian i gael offer i'r Neuadd a'r ystafell bwyllgor — gobeithio'n wir y cawn yr un brwdfrydedd eto eleni.

Nos Lun, Rhagfyr 23, aeth criw bath o aelodau o amgylch y pentref i ganu Carolau gan gychwyn o Lys y Gwynt am 6.30 p.m. Dymuna'r Carolwyr ddiolch i bawb a gyfrannodd ac i'r ffrindiau am eu croeso cynnes. Gwnaed casgliad o dros £30. Tynnwyd Clwb Cant mis Rhagfyr ar aelwyd Llygad yr Haul — 1: Michael Jones, Perthi; 2: Mrs Annie Hughes, Cae Hywel; 3: Phyllis Elis, Rhosfair. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr mewn pwyllgor — 1: Philip Jones, 8 Bryntirion; 2: Manon Glyn, Bryn Eglwys; 3: Eileen Thomas, Bron-y-gaer.

Bydd bwlch mawr ar y pwyllgor wedi marwolaeth un o'r aelodau ffyddlonaf, sef Huw Williams. Roedd yn un o ymddiriedolwyr cynharaf y pwyllgor. Bu'n ffyddlon i'r holl bwyllgorau a'r amrywiol weithgareddau. Balch ydym ei fod wedi gweld gwreiddu adeiladu'r Ysgol Gymunedol, ond gresynwn na wêl agor y Neuadd hir-ddisgwyledig. Derbyniwyd y teulu ein cydymdeimlad. **Colli Anwyliaid:** Brawychwyd ni oll o glywed am farwolaeth sydyn Mrs Eirlys Williams, 23 Bryntirion, ar Rhagfyr 23, ar drothwy'r Nadolig. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â'r teulu oll.

Yn dawel yn nhŷ ei chwaer, Mrs Eluned Porter, bu farw Huw Williams wedi brwydr ddewr, ar Rhagfyr 28. Mawr fu'r gofal amdano gan Mrs Porter a Pat a'r teulu oll. Cydymdeimlir â chwi fel teulu yn eich colled.

Ionawr 7fed mewn cartref henoed ym Mae Penrhyn bu farw Neville Abbott, Bryntirion gynt. Anfonir ein

cydymdeimlad â'r cysylltiadau oll.

Wedi gwaeledd hir yn yr ysbyty bu farw tad Nant Roberts (o Lanuwchllyn). Y mae ein cydymdeimlad yn fawr â chwithau Nant, Tegid a'r hogia' a'r teulu oll.

Diolch: Dymuna Mrs Eluned Porter a'r teulu ddiolch am y llu cardiau a phob arwydd o garedigrwydd yn ystod eu profedigaeth o golli un mor annwyl â Huw Williams.

Ysgol Tan-y-Coed: Dydd Llun, Chwefror 17, fydd diwrnod olaf Mrs Mary Davies yn yr ysgol cyn ymddeol ar ôl dros ugain mlynedd o

wasanaeth. Fe fydd ymddeoliad Anti Mary yn golled fawr i'r ysgol a bwriedir ei chyflwyno â thysteb fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am y cyfan a wnaeth yn ystod y cyfnod cyfrannu a fyddwchystal ag anfon eich cyfraniad i'r ysgol cyn dydd Gwener, Chwefror 1, os gwelwch yn dda.

Diolch: Dymuna Tegid a Nant Roberts, Arwel, a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

Cydymdeimlad: Bu farw Mrs Nel Jones, Hafodol, yn Ysbyty Gwynedd ar Tachwedd 24. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i merch a'i mab-yng-nghyfraith, Mr a Mrs Alwyn Jones, Tan-y-coed a'r teulu. Bu'r angladd ar ddydd Iau, Tachwedd 28, gyda gwasanaeth yn nhŷ Mr a Mrs Alwyn Jones, ac yna ym mynwent Llanrug. Mrs Jones oedd aelod hynaf Capel Ceunant, a bu yn hynod ffyddlon ac yn organyddes yno am flynyddoedd lawer.

Capel Ceunant: Cynhaliwyd gwasanaeth y plant ar brynawn Sul, Rhagfyr 29. Cymerwyd rhan gan Dylan Thomas, Dylan Parry, Nicola Jones a Ffion Williams. Yr oedd y gwasanaeth dan ofal Mrs Eirlys Ellis. **Yn Eisiau:** Rhywun i werthu'r Eco yn y Ceunant. Dymuna Mrs Helen Parry gael saib ar ôl cyflawni'r swydd ers y rhifyn cyntaf!

Yn Eisiau Hefyd: Gohebwr/wraig pentref i'r Ceunant gan fod Gwenno Parry bellach yn briod ac wedi symud o'r ardal i ymgartrefu ym Methesda. Dymuna'r Eco ddiolch o galon i Gwenno am ei chymorth, a dymuno iddi pob hapusrwydd yn ei chartref newydd.

MEDWEN

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Ffoniwch 871213 i drefnu amser

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

Aled
Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

Am waitth
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Geni Bedyddio Boed Priodas

Achlgeur arbennig?
Anrheg unigryw?
Beth am un o sampleri

**PWYTHAU
CAIN**

Cynllunir pob sampleri
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

Hefyd gwniadwaitth o bob math
gwneud dillad, newidiadau, ffenni, a.g.y.b.

Cysylltu â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd Darnau o farddoniaeth

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn, 1/1/92 — 1, £35: Mrs G. Williams, Siop y Gloch, Pen-y-groes (055); 2, £25: Nicola Baylis, 4 Coed y Ddôl, Llanberis (030); 3, £15: Mrs H. A. Thomas, Bryn Hafod, Newton St., Llanberis (045); 4, £10: Mrs Jane Jones, 7 Snowdon St., Llanberis (058); 5, £5: Mrs A. Jones, Angorfa, Coed y Glyn, Llanberis (164).

Cymdeithas St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn Eglwys St Padarn, nos Iau, Ionawr 2, 1992. Agorwyd y cyfarfod trwy weddi dan arweiniad Mrs Moreen Lennon, a chroesawyd Mr Hugh Jones o Lanwnda i'n plith. Trefnwyd cwis hwyliog ac addysgol iawn dan lywyddiaeth Mr Jones, a diolchwyd yn gynnes iddo gan Miss Gwyneth Parry — a oedd gyda Mrs Lennon yn gyfarfod am y banel o de y mis yma. Cyfranwyd y raffl gan Mrs Olwen Roberts, a Mrs Ann Parry-Jones yn lwcus. Croesawyd amryw o aelodau newydd i'r Gymdeithas a'r dynion yn eu plith. Croeso mawr iddynt.

Clwb Eryri: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn o'r Clwb yng Ngwesty'r Gwynedd o dan arweiniad Mr Iolo Llywelyn. Cafwyd annerchiad ddifur ar 'Hysbysebion' gan Mr John Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Wener, 7 Chwefror pryd y disgwyliar Mr John E. Hughes i annerch gyda Mr Meurig Evans yn llywyddu. Atgoffir yr holl aelodau fod angen talu am y Cinio Gŵyl Ddewi yn ystod y noson hon.

Diolchiadau:

Dymuna John H. Hughes, Tan y Clogwyn, drwy gyfrwng yr Eco, ddiolch i'w gymdogion a chyfeillion am y llythyrau, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd, yn ogystal a'r llu ymweliadau, yn ystod ei waeledd yn Ysbyty Gwynedd, ac yna wedi iddo ddechrau gartref. Diolch yn fawr.

Dymuna Mr Charles Saynor ddiolch o galon i'r brifathrawes, athrawon, eu cadweithwyr, plant Ysgol Dolbadarn, a'r Ysgol Feithrin, a'r holl fudiadau lleol a ddefnyddiai'r ysgol bob nos, am yr anrhegion a'r dysguliadau dan y dderbyniad ar achlysur ei ymddeoliad.

Dymuna Mr Hugh Williams, 7 Stryd Tomos, a'r teulu ddiolch i'r cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd a chydymdeimlad dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli Nellie. Hefyd i staff nyrsio Ward

Glyder, Ysbyty Gwynedd; Meddygfa Llanberis; Y Gweinidogion, Y Parch John Pritchard a'r Parch Gwyndaf Williams; Mr Gareth Jones, organydd; a Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau.

Dymuna Mrs Rhiannon Roberts, Trefor a Gareth, chwaer a brodyr y diweddar Mr Griffith Edward Roberts, 57 Dôl Elidir, ddiolch yn ddiffuant i'r cymdogion a chyfeillion pell ac agos am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad, pob cymwyna a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli priod, tad a brawd annwyl. Diolch yn arbennig i'r meddyg teulu, gwasanaeth Ambiwylans, Y Parch Gwynfor Williams, am eu gwasanaeth a charedigrwydd yn ystod eu profedigaeth. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau.

Anrhydeddu: Yn rhestr Anrhydeddau y Ffawdd Newydd i dderbyn yr M.B.E. am ei waith, gwelwyd enw John Colin Butler, B.Eng., mab Mr Joseph Butler, B.A., a'r ddiweddar Mrs Myfanwy Butler, a'w ddiweddar Llanberis, a brawd Michael a Dewi a'r ddiweddar Eleanor. Addysgwyd Colin yn Ysgol Dinorwig, Ysgol Brynrefail a Phrifysgol Lerpwl lle y graddiodd mewn peirianwaith morwrol. Wedi hynny, yn 1963, ymunodd a chwmni Rolls Royce fel peirianydd ymchwil, ac ef yn awr yw eu prif lywodraethwr prosiectau cyfoes. Y mae'n briod gyda dwy ferch ac yn byw yn Hilton, ger Derby.

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.

Llongyfarchiadau i Helen M. Pritchard, Tŷ Isaf, ar ennill gradd B.Sc. gydag anrhydedd yng Ngholeg Leeds. Pob lwc iddi ar y daith i America, Seland Newydd ac Awstralia yn ystod mis Ionawr 1992.

Dymuna Helen ddiolch i'r teulu a ffôn ac anrhegion a dderbyniodd i ddymuno'n dda iddi ar ei thaith.

Llongyfarchwn Heddwen a Dafydd Pritchard, Fron, ar enedigaeth merch, Manon, hefyd i Caron a John Pritchard, Tŷ Isaf, ar enedigaeth mab, Gethin, brawd i Gwenno.



Cystadleuaeth Snwcer Llanberis, Cwpan Sialens Francis Jones — o'r chwith: Meirion Evans, Alan Jones (dyfarnwr), Ian Edwards (enillydd), Emllyn Davies (ail).

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

Cyngor Cymuned: Cynhaliwyd cyfarfod ar 8 Ionawr yn y Ganolfan, Waunfawr. Unwaith eto nid oedd enw gerbron y Cyngor ar gyfer y sedd wag yng Nghaeathro. Fodd bynnag, roedd y sedd newydd yn y 'sgwâr' wedi cael ei chodi gan Antur Waunfawr. Mae Cyngor Arfon wedi caniatáu hyd Ionawr 17 i gwmni Glangwna orffen ail-godi'r wal ar hyd yr hen lôn i Bontrug. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais cynllunio i ddy annedd. Adroddwyd gan y Clerc bod Cyngor Arfon wedi caniatáu estyniad i Hafan, Rhesdai Bryngwna.

Pwyllgor Cae Chwarae: Trefnodd y pwyllgor dros-dro nifer o ddigwyddiadau Nadolig yn y pentref — y goeden Nadolig (yn anffodus cafwyd difrod drwg i'r gwifrau trydan yn ystod gwynioedd mawrion cyn y Nadolig); bocsus o nwyddau i'r

pensiynwyr; a thaith i weld pantomeim ar gyfer y plant. Bydd cyfarfod cyn bo hir er mwyn ail sefydlu'r pwyllgor yn ffurfiol a threfnu codi arian er mwyn ariannu digwyddiadau yn y pentref.

Capel y Pentref: Pregethir gan y canlynol yn ystod mis Chwefror — 2: Parch Trefor Jones; 9: Parch W. R. Williams (Gweinidog); 16: Parch Huw Gwynfa Roberts; 23: Parch W. R. Williams; Mawrth 1: Parch Gwilym Hughes.

Pwyllgor Sioe'r Pentref: Cynhelir cyfarfod am 7 o'r gloch yn y Festri ar nos Lun, 3 Chwefror, i bawb sydd â diddordeb mewn gweld y sio cynnyrch a thŷ yn cael ei chynnal eleni. Croeso i bawb.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs C. Evans, Llecyn Clyd, Erw Wen, ar ddathlu eu Priodas Arian ar 21 Ionawr.

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

CROESO CYMREIG CYNHESACH TARGED YN HELPU

Mae TARGED, y Cyngor Hyfforddiant a Menter sy'n gyfrifol am un o'r ardaloedd twristiaeth blaenaf yng Nghymru, yn credu y gallai Cynllun 'Welcome Host' Bwrdd Croeso Cymru effeithio'n syfrdanol ar y diwydiant croeso yng Ngwynedd ac ar hyd glannau gogledd Cymru.

Golyga hyn, i bob pwrpas, fod Targed i roi cyrsiau i gannoedd o bobl ar sut i roi gwasanaeth o safon uchel i ymwelwyr a chroeso cynnes.

'Mae'r croeso Cymeig yn beth rydym yn ymfalchïo ynddo,' meddai Enid Rowlands, Prif Weithredydd Targed, 'ond mae angen inni roi mwy o sylw i feistrolï'r sgiliau sydd eu heisiau er mwyn bod yn groesawydd effeithiol a chynnes. Fel hyn gall ymwelwyr wneud yn fawr o'u hymwelïad â Chymru ac ar yr un pryd ddod â manteision i'r busnesau a'r bobl leol a gyflogant. Mae'n rhan o'n hathroniaeth o wneud Cymru yn lle adnabyddus am bwysigrwydd safon.'

Mae cynllun 'Welcome Host' BCC yn gam cyntaf tuag at greu ymwybyddiaeth o wasanaeth da a phwysigrwydd y diwydiant twristiaeth. Gall hyfforddiant fod o help i bobl wella eu hyder ac ymfalchïo mewn gwneud eu gwaith yn dda. Mae hyn yn gwisg i unigolion a chwmnïau ym mhob cwr o fywyd.

ANTUR PADARN

Er na chafwyd newyddion da cyn y Nadolig ynglŷn â'r cais a wnaed i'r Swyddfa Gymreig o dan Gynllun Cymorth Trefol am grant ariannol i gyflogi Swyddog Datblygu mae'r aelodau yn edrych ymlaen yn hyderus i'r flwyddyn newydd.

Mae gwaith eisoes ar droed i geisio cymorth ariannol o ffynnonellau eraill i benodi swyddog a chael swyddfa i'r Antur. Rydym yn gobeithio gweld datblygiad i'r cyfeiriad yma o fewn y mis neu ddau nesaf. Hefyd fe ddylem weld cyhoeddi canlyniadau'r holiadur — dogfen a fydd o werth mawr ac yn gyfrwng i lunio strategaeth economaidd, diwylliannol a chymdeithasol ar gyfer Dyffryn Padarn. Yn ogystal a hyn rydym yn y broses o gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda cwmni Euro-DPC ar safle Glyn Rhonwy. Mae gan y cwmni yma gynlluniau mawr a chyffrous ac mae'r Antur yn awyddus i sicrhau bod yr ardal yn cael y fantais mwyaf posibl o'r datblygiadau hyn. Eisoes mae'n bwysig i bobl leol gysylltu â'r cwmni yn eu swyddfa yn

Gobeithir y bydd cwmnïau a chyrrff mawr sy'n cyflogi pobl sy'n amrywio o fod yn glercod banc i fod yn ofalwyr parciau ceir a gweithwyr til yn cymryd rhan.

Bydd pobl sy'n arwyddo ar gyfer y rhaglen hyfforddiant yn mynd i seminar undydd lle y bydd hyfforddwyr profiadol yn trafod a'u cynorthwyo i gyflwyno delwedd fwy proffesiynol a chyfeillgar.

Mae Targed eisoes wedi chwarae rhan amlwg mewn hyfforddi'r hyfforddwyr sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen 'Welcome Host'.

Barnwyd ei bod yn angenrheidiol i bobl o bob rhan o Gymru dderbyn yr un hyfforddiant gan ddefnyddio'r un dull, er mwyn diogelu'r safonau uchaf. Nid yw hynny yn golygu y bydd cannoedd o bobl trwy Gymru yn cyfarch eu cysylltwyr yn yr un ffordd.

Ond mae'n golygu y bydd pawb yn deall egwyddorion a manteision bod yn groesawydd cynnes.

GWEITHIWR FFERM
(Defaid a Gwartheg)
Ffôn: Llithfaen 237
neu
Llanberis 870842
ARFON WYN JONES

31 Station Lane, Witney, Oxfordshire OX8 6AN, er mwyn holi ynglŷn â'n gobeithion am waith. Rwan yw'r amser i wneud hynny. Ysgrifennwch atynt heddiw.

Erbyn i chwi ddarllen yr adroddiad hwn bydd yr Antur wedi trefnu cyfarfod i gynrychiolwyr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yr ardal i gyfarfod â swyddogion y

APÊL AM HANES DIWEDDAR

A oes gennych chwi hen luniau neu unrhyw ddeunydd diddorol arall o'r trigain mlynedd diwethaf?

Mae Gwasanaeth Archifau ac Amgueddfeydd y Sir yn wynebu gofynion newydd, yn arbennig oddi wrth ysgolion yn dilyn y Cwricwlwm Hanes newydd. 'Rydym yn derbyn llawer o geisiadau am luniau a deunydd arall o'r trigain mlynedd diwethaf.

Er bod gan Wasanaeth Archifau ac Amgueddfeydd Gwynedd gasgliadau eang o gyfnodau cynharach mewn Hanes, cymharol ychydig o ddeunydd sydd gennym o'r cyfnod diweddar. Hyd yma, nid yw pob wedi rhyddhau deunydd o'r tridegau ymlaen. 'Rydym felly yn apelio ar y cyhoedd i drosglwyddo eu hen luniau, a.y.b., i ni yn yr Archifdy.

Y math o ddeunydd a fyddai'n debygol o fod o ddiddordeb fyddai lluniau lleol o ansawdd da, yn dangos pobl, golygfeydd strydoedd, trafniadaeth, tai a chartrefi, ysgolion, adloniant, pobl wrth eu gwaith, bywyd cymdeithasol, a.y.b.

Os oes gan unrhyw un ddeunydd

diddorol ac yn fodlon eu trosglwyddo byddai'r Gwasanaeth Archifau ac Amgueddfeydd yn falch o glywed oddi wrthynt.

Fe fyddai'r cyfan yn cael pob gofal, ac yn cael eu hastudio gan ysgolion ac ymchwilwyr lleol.

Os gwelwch yn dda anfonwch at:
Gwasanaeth Archifau ac Amgueddfeydd Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Caernarfon, neu ffonio Caernarfon 679092.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * 0 ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

DRAENOG

Dwy wraig o Ddeiniolen yn penderfynu mynd am dro i Sir Fôn ar ôl y Nadolig. 'Gwylia i edrach welwn ni oen bach cyn cyrraedd Benllech,' meddai un wrth y llall.

'Duw dacw ddau yn y cae yn fan'cw.'

'Ia'n wir,' meddai'r llall.

Ond ar ôl ail edrych dyma'r ddau oen yn codi a hedfan i ffwrdd!

Gobeithio fod ffermwyr Deiniolen yn gwybod y gwahaniaeth rhwng oen bach a gwylan!

cwmni. Adroddir mwy am hyn yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar nos Iau, Chwefror 6, am 7 yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis. Mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni.



ERYRI
ORGANIG

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaitth ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

LLANFAGLAN

Ffôn: C'fon 76905

Rhwng 5 a 7 yr hwyr

TŶ DA

ar werth i
ddarllenydd yr
ECO am bris
rhesymol iawn
Cyllter â
Wanfawr 558

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING
MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc



I DDYSGU
DREIFIO EFO
STAN
(Ysgol Yrru Rhiwen)
Ffoniwch
Bangor
364143

O SIAMBAR SELWYN

Erbyn i chi ddarllen y nodiadau hyn mi fydd 'na un mis o 1992 wedi mynd heibio, sef Ionawr. Daw'r enw 'Ionawr' o'r enw 'Ianws', sef hen dduw Rhufeinig y dywedir fod ganddo ddau wyneb — un i edrych yn ôl a'r llall i edrych ymlaen. Un a'i lygaid tua'r blynyddoedd a oedd wedi mynd, a'r llall a'i lygaid tuag at y blynyddoedd sydd i ddod. Edrych yn ôl dros y gorffennol, ac edrych ymlaen i'r dyfodol. Does dim rhyfedd felly i Ianws roddi ei enw ar fis cynta'r flwyddyn — oherwydd dyma gyfle i bob un ohonom edrych yn ôl dros y flwyddyn a fu ac edrych ymlaen at y flwyddyn sydd o'n blaen. Enw da ar fis cynta'r flwyddyn yntê? Ionawr, January, Ianws.

Ddiwedd 1991 bu farw Gwelyn. Un o hogia Deiniolen. Fedrech chi ddim bod yng nghwmni Gwelyn yn hir iawn heb iddo fynd a chi'n ôl i Llanbabs. 'Chydig iawn o'i gwmni a gês i er ein bod yn nabod ein gilydd ers blynyddoedd. Rwy'n cofio'r tro cynta i ni gyfarfod â'n gilydd — ar faes Caernarfon. Mynd ar wyliau gyda clybiau ieuenctid yr ardal yr oedd ni — o dan arweiniad y diweddar I. B. Griffith. Cyfarfod ar y Maes yng Nghaernarfon a chychwyn ar daith i le o'r enw Axel yn yr Iseldiroedd.

Cofiaf eiriau cynta' Gwelyn: 'A oes te yn Ostend?' a minnau yn ei ateb: 'Oxo sy' gael yn Axel'. A dyna'r 'ddeialog' gynta' fu rhyngom erioed.

Pan fyddem yn cyfarfod ar faes y brifwyl bob blwyddyn, ar ôl dymuno blwyddyn newydd dda i'n gilydd, mi fyddem yn ail adrodd y ddeialog uchod ac yn cael hwyl wrth gofio am y gwyliau a gawsom dan arweiniad I.B.

A'r ddeialog ola' fu rhyngom? Dros flwyddyn yn ôl bellach pan oedd Cynhadledd Plaid Cymru yng Nghaerdydd — Gwelyn a'i briod yn dod i dreulio noson

ddifyr gyda Gwilym Owen, Eifion Lloyd Jones a minnau yng nghlwb HTV ym Mhontcanna.

Do mi aeth Gwelyn a minnau yn ôl i Llanbabs y noson honno hefyd. 'Buck' oedd blasenw, neu lysenw Gwelyn gan ei ffrindiau. Gwir y canodd y Prifardd T. James Jones:

Digalon fu adloniant
Y werin ers Twm o'r Nant
'Chubodd 'Buck' gam y ddrama
Trwy ei ddawn cawd theatr dda
Rhoi i'w waith, tu ôl i'r wên
Lach doniolwch Deiniolen.

Yn y dyddiau hyn pan mae'r



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

'adloniant ysgafn' a baratoir ar ein cyfer ar y teledu mor echrydus o wael, fedrwn ni ddim llai na chyfrî'r golled a gawsom fel cenedl o golli triawd mor ddawnus â Gwelyn, Rhydderch a Ryan — ie, a Gari hefyd, a'u colli mor gynnar. Yn anffodus does na neb i'w weld yn dod i

lenwi'r bwlch chwaith.

Os oes yna theatr yn y Wynfa Wen — mi fetia' i chi bod y triawd a Gari wedi cael seiat tu ôl i'r llenni a bod yna ddrama wych ar y gweill.

Mi fetia' i chi mai comedi fydd hi hefyd.

Wavell Roberts CIGYDD LONDON HOUSE LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta


Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

**Barrys
GLASS**



**Camelot,
PENISARWAUN**

Ffôn: Llanberis 871144

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff**

Castell Cidwm



**BETWS GARMON
Ffôn: Waunfawr 243**

Dewch am wledd ym
MWYTY'R PYSGOTWR
ar lan Llyn Cwellyn lle
diddorol, gwahanol, braf

ac am baned o goffi a theisen hufen
mae croeso i deuluoedd a phlant yn
CAFFI'R BWTHYN

J.R. PRITCHARD BONTNEWYDD

Ffôn:

Caernarfon 3507

Gwneuthurwyr
Ffenestri a Drysau
Ffoniwch am fanylion
a phrisiau cystadleuol



£330



£240

**AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...**



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Y DDEUDDYN HYN gan Y GWALCH

Os profodd rhywun rhywdro y ffaith fod pob bodolyn yn gorfod dilyn ei dynged anochel i'r pen, Tom Keogh a Jean McFarlane oedd y rheiny. Roedden nhw wedi ceisio mor galed i osgoi cyfarfod â'i gilydd ar dir y byw. Roedd Jean wedi ymfudo pan yn blentyn gyda'i rieni o'r Alban i sefydlu cartref newydd ar lan llyn Winnipeg. Digwyddodd rhywbeth cyffelyb ym mhleentyndod Tom hefyd, pan symudodd ei deulu o'r Transvaal i New South Wales i dyfu eirin gwlanog. Yna, ym mlynnyddoedd eu harddegau, daeth yr ail ryfel.

Ymunodd Jean â WAAF Canada, a daeth tros yr Iwerydd yn ei hôl. Y cyfle cyntaf a gafodd, aeth i ymweld â'i thaid gweddwr yn ei fwthyn ger Loch Fyne.

Erbyn hynny roedd Tom wedi cael ei hyfforddi fel peilot yn Llu Awyr Awstralia, ac ar ei ffordd mewn llong araf drwy Suez a'r dyfroedd rheiny a oedd yn llawn o'r llongau 'U', a'i torpidos marwol.

Hyfforddwyd Jean i bacio parasiwts mewn storfa. Achosodd syndod unwaith pan awgrymodd wrth rhyw rhingyll y dylai pob un o'r pacwyr ddangos ei ffydd yn ei fedr drwy neidio unwaith allan o awyren. Ar ddiwedd y cwrs, postiwyd hi gyda merch arall i faes awyr yn y de. Geneth fechan o Fanceinion oedd honno. Roedd ei hwyneb wedi ei orchuddio â'r math hwnnw o frychni â all fod yn ddeniadol mewn rhai unigolion. Yn anochel, galwyd hi yn 'Freck'.

Yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd, daeth squadron o Mosquitos newydd danlli i orsafu yn y maes awyr, ac un o beilotiaid y rhain oedd Tom Keogh. Awyren bren ddau beiriant oedd y Mosquito. Meddai dro o gyflymder nas gallai yr un awyren gyffelyb ei gyffwrdd yn y cyfnod hwnnw. Roedd hynny yn ei gwneud yn arf delfrydol i ddwyn cyrchoedd isel a dirybudd ar y gelyn, taro sydyn fel barcud a diflanu ar amrantiad; yn rhes neu yn unigol, fel y cyrch hwnnw ar garchar Amiens.

Roedd Tom a'i navigator — Jones y bachgen main, a oedd yn cael trafferth i gael lle i'w goesau maith yn ei wely, heb sôn am awyren — wedi gweld Freck a Jean McFarlane unwaith neu ddwy cyn mynd ar y cyrch hwnnw ar y maes awyr yng ngwlad Belg; sefydliad a oedd yn llawn o awyrennau ymlid a oedd yn achosi cymaint o golledion i'r Lancasters yn y nos. Wrth gwrs roedd genethod y storfa barasiwts ar bigau i weld yr hogiau newydd, ac heblaw ei fod yn hogyn prydwedol,

roedd Tom Keogh yn amlwg yn eu mysg am ei fod yn gwisgo lifrai glas tywyll Awyrlu Awstralia. Roedd erbyn hyn yn gynefin â'r galwadau o ben draw'r adeilad. 'Hollo Dig. How are things down at the billabong?' Neu, 'How's Matilda?'

Y diwrnod hwnnw, Jean McFarlane oedd yn didol y parasiwts, ac wrth iddi estyn un Tom, syrthiodd clip o'i gwallt ar y faenc. Yn lle ei roi yn ei ôl iddi, cysylltodd Tom y clip wrth strap y parasiwt. 'Mi cei o yn ei ôl heno,' meddai.

I osgoi gynnu'r arfordir, roedd y daith i wlad Belg wedi ei threfnu i groesi'r arfordir i'r de o Ostend, ac yr oedd Jones wedi cael vector i'w cludo i ardal Mechelen. Ar ôl taro'r maes, roeddent am ail groesi'r Schelde, ac allan rhwng Bruges a Walcheren.

Roedd hi'n gymylog ond yn sych gyda gwelediad da. Ar ôl codi tros glogwynni Ostend roeddent allan ar wastadir Belg ar slap. Roedd Jones yn un da am ddarllen y llaw o dano, er ei fod yn teimlo bob amser fod Tom yn chwanog i ehedeg yn rhy agos i hwnnw.

Erbyn iddynt gyrraedd y maes roedd darnau ohono yn brod ar dân ar ôl y don gyntaf. Roeddent i mewn ac allan mewn eiliadau. Cafodd Jones gip ar awyren yn llosgi ar y llawr a'r roundels trilliw arni. Doedd dim modd weud pwy oeddent.

Doedd Jean McFarlane fodd bynnag ddim angen ei chlip yn ei ôl. Gadawodd Tom ef ar y strap fel talisman o lwc dda, ac yn wir dyna a gafodd — a chwaneg. Datblygodd carwriaeth amser rhyfel fryslog rhyngddo a Jean, a doedd neb ddim balchach ar eu rhn na Freck, ac yr oedd hi yn llawn mor bryderus pan ai'r cyrchoedd allan a neb. Byddai yn un o'r ffenestri yn gyson yn gwyllo am ddychweliad y Mosquitos.

Roedd gan Jean fodd bynnag ei syniadau ei hun ynghylch yr holl fusnes. 'Mae genod Rwsia,' meddai

hi, 'yn hedeg fighters yn y nos hefo'r dynion. "Night Witches" mae nhw'n cael eu galw. Mi ddyle ni gael gwneud hefyd.'

Mae'n well gen i dy gael di'n wrach fach gyfan ar lawr, oedd ateb Tom.

Yna daeth diwrnod y cyrch ar sidings Lille; trannoeth penblwydd Freck yn bedair ar bymtheg oed. Aeth y tri allan i ddathlu gyda'r nos. Roedd y ddwy eneth un ymhob braich i Tom yn dod yn ôl, a phawb yn wablian braidd.

Roedd y gweithwyr Ffrengig, drwy gyfrwng y Fyddin Gel, wedi cael rhybudd i gadw yn glir â sidings Lille am ugain munud i unarddeg y bore. Roedd y cyrch yn golygu yn hawdd — rhyw ddywawr gwt. Serch hynny, roedd y genethod yn dal yn barhaol bryderus. Gwyddent yn eu calonnau na fuasai talisman y clip yn dal yn amhenodol. Ond doedd dim angen pryder y diwrnod hwnnw: 'sleisen o deisen' chwedl y jargon; tryciau yn chwilfriw fel matsus, cledrau yn ehedeg drwy'r awyr fel prisiau tân. Ond roedd Jones yn dal i gredu nad oedd angen mynd i mewn mor isel.

Wrth iddynt ddychwelyd tros y Môr Udd, caniatodd Tom i'w feddyliau grwydro am funud — am eu cynlluniau ar ôl y rhyfel — Jean ac yntau. Roedd hi yn mynd yn ei hôl i Winnipeg am gyfnod, ac yna yn dod i Awstralia i briodi a thyfu eirin gwlanog. Ond cafodd blwc o'i fyfyrdd. Daeth neges radio yn gorchymyn iddo beidio â glanio nes cael arwydd pellach, a phan ddaeth i olwg y maes awyr, gwelodd pam. Roedd yna goelcerth ym mhen y runway, ac yn sydyn cafodd gip ar ddwy Spitfire yn troi yn y cylch glanio fel yr oeddent yn ceisio cael eu gynnu ar ME109 a oedd yn plymio i gyfeiriad yr adeiladau.

Roedd hi'n amlwg beth oedd wedi digwydd; yr hen dric. Roedd yr ME109s wedi bod yn disgwyl dychweliad y Mosquitos i'w taro ar eu gwanaf wrth lano, ac yr oeddent wedi cael un.

Wedi i Tom lano o'r diwedd, roedd gan y rhai chwilfrydig ar y llawr, lawn cymaint o newyddion iddo ef ag yr oedd ganddo yntau iddynt hwythau. Ond siomwyd dim am y syndod a gafodd wrth droi'r gongl i groesi'r darn o dir agored rhwng y NAAFI a'r storfa barasiwts.

Roedd yna dair topcôt las yn y fan honno wedi eu taenu i guddio rhywbeth, ond nid yn gyfangwbl. O dan ymyl y cotiau roedd yna dri phâr o draed a fferi main i'w gweld. Roedd un droed wedi colli ei hesgid.

Safodd Tom yn fud. Roedd yn gynefin â gweld lladdedigion ar bob tu yn ddyddiol — ond dynion oedd y rheiny, dynion. Genethod ifainc oedd y rhain; genethod tlws a . . . Teimlodd law Jones ar ei fraich yn ei dynnu draw.

Yn nrrws y storfa yn ei hofarôl pacio glas roedd Freck yn sefyll. Doedd hi ddim am symud chwaith i'r hogiau gael mynd heibio. Rhoddodd gam yn ei blaen a rhoi ei phen ar fynwes Tom a dechreuodd wylo. Roedd genethod yn cael dangos eu teimladau yr adeg honno.

Yna cododd Freck ei phen a dechreuodd regi. 'Y diawlad: doedden nhw ddim yn fodlon i falu'r Mosquito. Daethant rownd wedyn a gwagio eu gynnu ar bopeth oedd yn symud. Dim ond wedi picio i'r NAAFI roedd y dair . . . dim ond wedi picio . . .'

Aethpwyd â chorff Jean McFarlane i'w gladdu ger Loch Fyne, ond nid aeth Tom na Freck i'w ganlyn. Roeddent yn gwneud pethau pwysicach tros y dŵr ac yn y storfa barasiwts. Daeth yna rhyw ddistawrwydd tros y genethod i gyd am ddiwrnod neu ddau. Ond yr oedd Freck yn dal i wyllo'r runway ar awr y dychweliadau. Ac un diwrnod disgwyl y bu hi am ddyfodiad Tom a Jones o ddociâu Rotterdam.

Roedd un o'r peilotiaid olaf i fynd i mewn yn dweud ei fod wedi gweld eu Mosquito yn mynd drwy'r mwg ychydig o eiliadau o'i flaen. Roedd hi'n hynod o isel. Collodd olwg arni wedyn. Credai ei bod wedi mynd ar ei phen i jib un o'r creiniau uchel.

Wn i ddim beth ddigwyddodd i Freck. O leiaf, roedd hi'n haeddu cael mynd adre'n fyw.

Salem — Y Llun a'r Llan

I'r sawl sy' wedi bod ar bererindod i Gapel Salem Cefncymerau, ger Llanbedr, Dyffryn Ardudwy, dyma lyfr i'ch hatgoffa am ramant y Capel. Os oes gynnuch ddarlun enwog Curnow Vosper 'Salem' yn eich cartref dyma lyfr sy'n rhoi ei hanes.

Os na fuoch yno, neu os nad ydi 'Salem' ar fur eich lolfa, yna gallasai'r llyfr newydd dwyieithog yma lenwi'r bylchau. Ynghyd ag olrhain hanes Curnow Vosper mae yma ysgrifau a chyfraniadau gan enwogion cyfoes Cymru, a hanes rhyfedd creu'r darlun a sut y daeth yn enwog.

Ceir ynddo astudiaeth fanwl o'r ardal a'i chymeriadau, hanes addoli yng Nghefncymerau oddi ar 1820, ac mae lluo o ddarluniau lliwgar. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg gyferbyn â'i gilydd, ac mae'r iaith yn addas i blant, dysgwyr ac oedolion.

Ar gael yn y siopau llyfrau Cymraeg. Cyhoeddiadau Barddas. £6.95

**DAVID
CLOUGH**


Ynysoedd
WAUNFAWR
Ffôn: 282

Paentio a Addurno
Gwaith Atgyweirio
'Estimates' am ddim

**BETHEL
SCAFFOLDING**

BRYN Y CHWILOG, BETHEL
Ffôn: Portdinorwig (93) 670325

- ★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus
- ★ Prisiau cystadleuol
- ★ Ffoniwch i gael estimate yn rhad ac am ddim



**MAE'R
SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
BANGOR
354646

Dyddiadur y Mis

CHWEFROR 1992

3 **Llun. Deiniolen:** Sefydliad y Merched.

4 **Mawrth. Penisarwaun:** Yr Urdd — noson o dan ofal Phyllis Ellis. **Deiniolen:** Undeb y Mamau.

5 **Mercher. Llanrug:** Capel Mawr — y Gymdeithas Lenyddol.

6 **Iau. Llanberis a'r Ardal:** Antur Padarn yn Angorfa am 7.

7 **Gwener. Yr Ardal:** Clwb Eryri — Gwesty Gwynedd, Llanberis. **Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8.

8 **Sadwrn. Penisarwaun:** Yr Urdd — gêm bêl-droed.

10 **Llun. Waunfawr:** Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan y Parch John Gillibrand. **Eglwys Llandinorwig:** Oedfa dan nawdd Cyngor Eglwys Deiniolen am 7.

11 **Mawrth. Llanrug:** Merched y Wawr — gosod blodau.

14 **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8.

15 **Sadwrn. Aberystwyth:** Rali Genedlaethol Cymdeithas yr Iaith. **18 Mawrth. Penisarwaun:** Yr Urdd — sgwrs gan Len Porter.

19 **Mercher. Llanrug:** Plaid Cymru — sgwrs a sleidiau gan Mary Vaughan Jones yn y Sefydliad Coffa am 7.30. **Llundain:** Rali Genedlaethol y Fforwm Iaith. **Waunfawr:** Disgo i'r plant yn y Ganolfan.


21 **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8.

24 **Llun. Waunfawr:** Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan Capten Gwyn Pari Hughes. **Llanrug:** Tombola yn Ystafell y Band.

25 **Mawrth. Penisarwaun:** Yr Urdd — Dawnsio Gwerin gyda Judith Harding.

28 **Gwener. Llanrug:** Plaid Cymru — Canghennau'r Ardal — Dathlu Gŵyl Ddewi yng ngwesty Fictoria, Llanberis am 7.30. **Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8.

CROESAIR CHWEFROR



AR DRAWS

1. Dwsin y pobydd (8)
7. Gorchymyn. Yfed trwy'r gellryn (5)
8. O ryddhâd fel arfer (7)
9. Taro'r gwydrau (5,2)
10. Gwen a Mair a phwy? (4)
12. Gwledd briodas
14. Un frwyn erstalwm (7)
17. Canol 'Palmas' (4)
18. Cynrhon yn ei ben ôl hwyrach (7)
21. Tri — sydd rhwng Sul a Iau (7)
22. 24 awr (5)
23. Prifddinas Brasil a Groeg (4,1,3)

5. Tynnu un o negydu (4)

6. Un ddu i Hedd Wyn (6)
7. Cydymaith lludw (7)
11. Boddhâd mawr (7)
13. Rhodded telyn — (1,7)
14. Cofir tros ganrifoedd (6)
15. Mwrdr merch i'm chwaer (3,3)
16. Rhydd nain — am un imi (3,3)
19. Un wen yn mwlich Aberglaslyn (4)
20. Cyw brân i'r fam (4)

ATEBION IONAWR

Tri chynnig yn unig — a dau yn gywir. Yr enillydd: **E. E. Jones, Tŷ Mawr, Rhoshirwaun.**



Cyhoeddir dyweddiad Carys Wyn, merch hynaf Richard ac **EIRLYS HUGHES**, 42 Bro Rhos, Bethel i **MARTIN GORDON**, mab Donald a Blodwen Thomas, Arwelfa, Brynsiencyn, Ynys Môn. Dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

PARTI PENDALAR A BRYNREFAIL

Yn dilyn traddodiad blynyddoedd blaenorol cafodd blwyddyn 6 Ysgol Brynrefail barti Nadolig gwyh gyda Ysgol Pendalar eto y flwyddyn hon. Roeddem wedi bod yn casglu arian ac yn prynu anrhegion ers wythnosau ac wedi paratoi gwledd ar eu cyfer a phan gyrhaeddodd y bws wedi hir aros roeddem wrth ein bodd. Roedd Arwena a David yn barod gyda chawra fideo i ffilmio'r prynhawn ac aeth oddeutu hanner cant o ddisgyblion ac athrawon Pendalar a hanner cant ohonom ni i'r neuadd i gael adloniant.

Ond cawsom sypreis pleserus iawn wrth i ddisgyblion Pendalar gynnig rhoddi adloniant i ni yn ogystal a'r adloniant yr oeddym wedi ei baratoi ymlaen llawn. Ymunodd pawb i ganu a chawsom lawer o hwyl.

Diflannodd y bwyd yr oeddym wedi ei baratoi cyn pen chwinciad dim ond mewn pryd cyn i Siôn Corn a'r corrach bollog gyrraedd. Difyrwyd y plant gan y ddau — yn enwedig gan deits gwyrdd tylllog y corrach!! Cafodd pob disgybl gyfle i siarad â Siôn Corn a derbyniodd pawb anrheg. Diolchodd rhai o ddisgyblion hynaf Ysgol Pendalar a dweud eu bod yn edrych ymlaen at y Nadolig nesaf yn barod!

Ar ôl ffarwelio teimlai pawb yn chwithig fod y parti wedi gorfod gorffen mor fuan — cymaint yr hwyl a gawsom. Roedd hi wedi bod yn braf dod i adnabod disgyblion Ysgol Pendalar ac wedi bod yn ddiwrnod arbennig a blinedig iawn.

Hoffem ddiolch i Mr Harri Jones am fod yn yrrwr bws mini mor ofalus i Webbs! Diolch hefyd i Mrs Carys Evans am drefnu a pharatoi'r bwyd, ac i Mrs Rhian Ellis Owen am helpu Siôn Corn a'r corrach!

Ond yn bennaf oll hoffem ddiolch i'r busnesau lleol (sydd yn rhy niferus i'w henwi'n unigol) am gyfrannu mor hael yn ariannol er mwyn sicrhau fod y digwyddiad mor llwyddiannus. Diolch yn fawr.

TAMMI A LOWRI

AR WERTH

Tŷ semi yn Llanrug. 3/4 ystafell wely. Lofa; ystafell fwyta; cegin binwydd; ystafell ychwanegol neu'r bedwaredd ystafell wely; ystafell ddefnyddiol cefn-garej; tŷ bach/basn 'molchi ychwanegol; garej; dwy ardd fechan. Gwres canolog nwy drwyddo. Carpedi. Pris rhesymol iawn.

Ffoniwch: Caernarfon 4051.

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

Beth am eich parti 'Dolig eleni partïon o 10 i 50

Cinio Twrci 3 cwrs o £8.50 (nos) neu £7.50 yn y dydd

Croeso cynnes i bawb oddi wrth Danny a Nerys

PLAID CYMRU LLANRUG A'R CYLCH DATHLU GWYL DDEWI

Bwyd Basged a Thwmpas Dawns gyda'r grwp 'Aderyn Prin'

Gwr Gwadd:

DYFAN ROBERTS

Nos Wener, Chwefror 28, 1992
yng Ngwesty Fictoria, Llanberis
am 7.30 o'r gloch

Tocynnau: Oedolion: £4.50

Dewis o Sgampi neu Cyw lâr neu Lleden neu Lasagne Llysieuol gyda sglodion.

Plant: £2.75

Dewis o Selsig neu Fish Fingers gyda sglodion.

Tocynnau i'w cael gan aelodau'r pwyllgor.

Cofiwch roi eich dewis o fwyd wrth brynu tocyn.

CHWARAEON

YDY'R OLWYN YN TROI...?

Cymru 1, Yr Almaen 0; Iwerddon 15, Cymru 16; Wrecsam 2, Arsenal 0. Emyr Lewis, Ryan Giggs, Wayne Phillips. Fuost ti'n Nulyn? Fedri di ga'l ticad i gêm Ffrainc? Dy'n ni'n trefnu bws i weld gêm Wrecsam a West Ham. Dyro f'enw i lawr. Mae 'na fwy yn mynd i weld gemau lleol rŵan. Fysa' cynghrair genedlaethol yn well dudwch? WALES! WALES!

Beth yw argoelion rhai o 'Bobl y Campau' am 1992

HUW HUGHES (Colofnydd Pysgota): 'Cyflwynir fideo yn olrhain hanes a datblygiad y Gymdeithas. Trefnir cyrsiau clumu plu ym Methel a'r Waunfawr.'

ALUN WYN EVANS (C.P. Deiniolen): 'Cael cae yn y pentref. Sefydlu patrwm o gyflwyno aelodau'r tîm ieuencid i dîm Sain, ac efallai Gwynedd yn y dyfodol.'

CATHERINE JONES (Clwb Bowlio Waunfawr): 'Cynnal brwdfrydedd yr aelodau, a gyda dau fat acw ceisio denu mwy o aelodau ieuainc.'

DEWI JONES (Pysgotwr): 'Ceisio ail-ennill fy lle yn nhîm Cymru i rai ag anabledd. Wedi bod yn yr Iwerddon y llynedd fe fuasai 'sgota yn yr Alban eleni yn rhoi'r *Grand Slam* o wledydd Prydain i mi.'

JOHN WILLIAMS (C.P. Llanberis): 'Parhau i roi cyfle i'r hogiau lleol. Ar ôl curo Bangor o 2-1 gobeithio y bydd y cefnogwyr yn amyneddgar.'

HARRI JONES (Criced): 'Wedi'r ail-wampio cael cynghrair i Wynedd gyfan — a'r safon gobeithio yn esgyn.'

DAFYDD OWEN (C.P. Llanrug): 'Adeiladu ar lwyddiant y llynedd a chreu awyrgylch a fframwaith i ddenu ieuainc yr ardal i gynrychioli tîm "eu" pentref.'

CLYWED WRTH BASIO...

★ Oscar Evans o Fethel wedi mynd o amgylch Cwrs Golff Caernarfon mewn sgôr o un o dan y safon (67 ergyd yn unig). Tipyn o sgôr yn y gaeaf — tipyn o strôc.

★ Bod dilynwy'r Dinas Bangor wedi rhyfeddu pan welsant faint y dorf yn y gêm cwpan rhwng **Waterloo a Deiniolen**. Rhywbeth i wneud â chefnogi hogia lleol tybed?!

★ Wedi cyfarfod i drafod dyfodol **Tîm dan 16 Llanrug**, mae bwriad i gario ymlaen. Dal ati Max!

★ Tipyn o gamp gan **Hefin Jones** o Ddeiniolen yn cael rhediad o 120 ar y bwrdd snwcer yn ddiweddar.

Unrhyw glecs — gadewch i mi wybod ar 670115.

DIOLCH: Dymuna'r Golygydd Chwaraeon ddiolch i selogion ffyddlon y cwisiau, pob pythefnos, yn y Bedol am eu casgliad haelionus fydd yn noddî 'Tlws y Mis' yn yr Eco.

PWY RYDD I LAWYR WŶR MAWR...

Uchafbwynt chwaraeon 1992 hyd yma i mi oedd rownd derfynol wych Pencampwriaeth Dartiau'r Byd. Os yw dycnwch, crefft, dyfalbarhad, ymdrech a mwynhad yn rhan o gamp, yn roeddent yno. Dartiau yw un o gampau mwyaf poblogaidd bro'r Eco, gyda nifer o dafarndai yn cynnal dau dîm. Nos Lun yw noson y gynghrair, a cheir dwy gystadleuaeth — 'o gwmpas y bwrdd' i unigolion, a 601 — a'r waedd 180 — i barau.

Un o sêr adran 3 Cynghrair Caernarfon yw **HYWEL HUGHES**, Monwysyn o Fethel. Mae ei dîm, Gors Bach 'A' ar frig y tabl, gyda thîm Mountain Rangers yn ail clôs. Hyd yma mae Hywel yn ddiguro gyda 18 buddugoliaeth o'r bron. Os mae'r ddau dîm yma fydd yn esgyn yna bydd Brian Jones, perchennog y Gors, wrth ei fodd ac yntau'n sylfaenydd o glwg y Rangers.

Bu Hywel yn chwarae i dîm Tŷ Gwyn yng nghynghrair Môn, ac yn gyn gôlgeidwad i Llangefni, a thîm diguro dros 30 Bethel.

Pwy fydd y cyntaf i'w guro, neu fydd wedi taro ei hoff ddwbl 9 a'r tarw cyn pawb arall? Wedi y 'Crafty Cockney' dyma'r 'Bethel Bull'!

Y GÊM FAWR — BETHEL UNEDIG

Wedi cryn ddisgwyl — a bygwth — chwaraewyd gêm y flwyddyn ym Methel ar Wyl San Steffan. Heriwyd y gwŷr dros 30 (a rhai yn bell dros hynny!) gan yr ebolion dan 30. I feddwl am gyfnod y flwyddyn, ac amser y bore, cafwyd gêm bêl-droed o gryn safon. Yr hen bennau a orfu o 5-2.

Er mor gryf oedd Dic, Emrys a lorwerth yn y cefn, carlamodd yr ebolion ddwy gôl ar y blaen yn fuan yn y gêm. Wedi i Morlais dynnu cyhyr yn lastig ei shorts, a Hywel gymryd ei le yn y gôl, gwelwyd cryn newid.

Daeth goliau yn rheolaidd i'r hynafgwyr gyda Dic, Dilwyn, Trefor, Maldwyn a lorwerth yn rhwydo. Roedd gôl Trefor yn gofiadwy, yn dangos fod ganddo **glust** am gôl o hyd. Llwyddodd y dyfarnwr i weld popeth o bellter er iddo dderbyn yr anrhegion o sbectol a ffon wen ar ddiwedd y gêm!

Braf oedd gweld y brodyr Williams, Cefn Isaf, 'ar y tir', ond ar wahan i John (a edrychai yn hynod o ifanc) roedd y ddau arall i'w gweld yn fwy cartrefol mewn esgidiau hoelion mawr yn hytrach nag esgidiau pêl-droed. Cafwyd perfformiadau addawol i'r ebolion gan John a Huw Morgan, Llwyn Bedw, yn enwedig o gofio y pwysau sydd arnynt i briodi eleni a hithau'n flwyddyn naid.

Siomedig iawn oedd perfformiadau 'sêr' yr ebolion. Roedd Dewi Cefn Gwyn yn dioddef o anaf a gafodd mewn 'lay-by', ac amharwyd ar gêm Myfyr Glan Gors oherwydd yr holl 'gel' a redai i'w lygaid. Diffiach oedd perfformiad Gareth Owen — siom fawr i'r nifer o 'fan-club' a ddaeth i'w wyllo.

Roedd y chwaraewyr yn hynod o ddiolchgar i'r nifer dda a ddaeth i'w cefnogi, a braf oedd gweld y gwahanol oedran yn cymdeithasu. Gobeithir trefnu gêm arall wedi i'r tywydd gynhesu. Gwnaed casgliad ymysg y chwaraewyr a chyflwynwyd £30 i'r Ysgol Feithrin leol.



DWBWL 9 — TARW — GÊM

SGÎO

A'r Eco yn mynd i'w wely, daeth y newyddion nad yw Cyngor Cymuned y Waunfawr am gyfrannu'n ariannol i hybu costau **MICHAEL WROE**, y sgîwr addawol o'r fro. Nid lle y golofn chwaraeon yw ymyryd yn nhrefn democratiaeth, ond teimlaf fod un neu ddau o bwyntiau dilys yn codi.

Mae Michael wedi dod a chryn glod i'r ardal. Braf fuasai meddwl y byddai unrhyw gyngor yn falch o hybu datblygiad unrhyw berson ifanc — yn enwedig o gofio y dyfodol llwm sy'n wynebu nifer o bobl ieuainc y fro ddifreintiedig hon. Diddorol fuasai gwybod faint o arian a gyfrennir gan ein cynghorau tuag at gymdeithasau neu fudiadau sy' heb unrhyw gysylltiad â'r ardal.

Mae cronfa wedi ei sefydlu gan y Cynghorydd Eurig Wyn i geisio helpu Michael.

ENILLYDD TLWS Y MIS

Cafwyd nifer o berfformiadau clodwiw, ond yr enillydd yw **GETHIN WILLIAMS** o Ddeiniolen. Llwyddodd i ennill tlysau Snwcer a Biliards y Nadolig. Credir mai Gethin, sy'n 18 oed, yw'r ieuengaf i gyflawni'r dwbl. Yn aelod o dîm duon Deiniolen mae eisoes wedi 'potio' i dîm y gynghrair. Cyflwynir y tlws yn y dyfodol agos.

GALLU DAL Y PWYSAU

Dychwelodd **GARETH PARRY**, 14 oed o Lanrug, yn ôl o Gaerdydd yn bencampwr codi pwysau ysgolion Cymru. Yn y dosbarth 56kg roedd o yn cystadlu. Mae hyn yn dipyn o gamp ac yn glod iddo'n bersonol ac i gyd-aelodau a hyfforddwyr Clwb Lanrug.